

Cais gan Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer prosiect Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr
Ail gwestiynau ysgrifenedig a cheisiadau am wybodaeth yr Awdurdod Archwilio (ExQ2)
Cyhoeddwyd ar 23 Ionawr 2023

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu ail gwestiynau ysgrifenedig a cheisiadau am wybodaeth yr Awdurdod Archwilio (ExA) – ExQ2. Os bydd angen, mae amserlen yr Archwiliad yn galluogi'r ExA i gyhoeddi rownd ychwanegol o gwestiynau ysgrifenedig maes o law. Os gwneir hyn, cyfeirir at y rownd ychwanegol o gwestiynau fel ExQ3.

Gosodir cwestiynau gan ddefnyddio fframwaith wedi'i seilio ar faterion sy'n deillio o'r Asesiad Cychwynnol o Brif Faterion a ddarparwyd fel Atodiad C i'r llythyr Rheol 6 dyddiedig 23 Awst 2022 [PD-007]. Ychwanegwyd cwestiynau at y fframwaith o faterion a amlinellwyd yno wrth iddynt godi mewn sylwadau ac i fynd i'r afael â'r asesiad o bob cais yn erbyn polisïau perthnasol.

Mae colofn 2 y tabl yn nodi at ba Bartion â Buddiant (IPs) ac unrhyw Unigolion Eraill y mae pob cwestiwn wedi'i gyfeirio. Byddai'r ExA yn ddiolchgar pe gallai'r holl unigolion a enwir ateb yr holl gwestiynau a gyfeirir atynt, naill ai trwy ddarparu ymateb o sylwedd neu esbonio pam nad yw'r cwestiwn yn berthnasol iddynt. Nid yw hyn yn atal rhywun rhag ateb cwestiwn na chyfeiriwyd ato, os bydd y cwestiwn yn berthnasol i'w fuddiannau.

Mae gan bob cwestiwn gyfeirnod unigryw sy'n dechrau gyda rhif (sy'n dangos ei fod yn perthyn i'r rownd ExQs o'r rhif hwnnw) ac yna rhif mater a rhif cwestiwn. Er enghraifft, nodir y cwestiwn cyntaf ar 'Faterion cyffredinol a thrawsbynciol' yn y rownd hon o gwestiynau fel ExQ2.0.1. Pan fyddwch yn ateb cwestiwn, dechreuwch eich ateb drwy ddyfynnu'r cyfeirnod unigryw, os gwelwch yn dda.

Dylid anfon ymatebion at [flwch negeseuon e-bost](#) yr Archwiliad. Os ydych yn ymateb i nifer fach o gwestiynau, bydd atebion mewn neges e-bost neu lythyr yn ddigonol. Os ydych yn ateb nifer fawr o gwestiynau, byddai'n ddefnyddiol i'r ExA petaech yn defnyddio tabl wedi'i seilio ar yr un hwn i osod eich ymatebion. Mae fersiwn y gellir ei golygu o'r tabl hwn yn Microsoft Word ar gael ar gais gan y Tîm Achos.

Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn **Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**



Talfyriadau a ddefnyddir

A	Erthygl
AIL	Llwyth Anwahanadwy Anghyffredin
AIS	Is-orsaf wedi'i Hinswleiddio ag Aer
ALAR	Adroddiad Asesu Llwyth Anghyffredin
ALC	Dosbarthiad Tir Amaethyddol
AHNE	Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
ATR	Llwybrau Teithio Llesol
AyM	Awel y Môr
BEIS	Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol
BoR	Llyfr Cyfeirio
CA	Caffael Gorfodol
CCBC	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
CEA	Asesiad o Effeithiau Cronnol
Cefas	Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu
CSIP	Cynllun Manyleb a Gosod Ceblau
DAERANI	Yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Gogledd Iwerddon
dDCO	Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft
DCC	Cyngor Sir Ddinbych
DCO	Gorchymyn Caniatâd Datblygu
ECC	Coridor Cebbl Allforio
ECoW	Clerc Gwaith Ecolegol
EDR	Radiws Atal Effeithiol
EM	Memorandwm Esboniadol
EPR	Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016
ES	Datganiad Amgylcheddol



ExA	Awdurdod Archwilio
FCA	Asesiad Canlyniadau Llifogydd
FCC	Cyngor Sir y Fflint
FMFP	Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio
FRAP	Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd
FS	Datganiad Cyllid
CALI	Cyferwerth ag Amser Llawn
FWNP	Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040
GC	Cyngor Gwynedd
GCN	Madfallod Dŵr Cribog
GIS	Is-orsaf wedi'i Hinswleiddio â Nwy
GyM	Gwynt y Môr
HDD	Drilio Cyfeiriadol Llorweddol
HRA	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
INNS	Rhywogaethau Estron Goresgynnol
IoACC	Cyngor Sir Ynys Môn
JNCC	Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur
km	cilometrau
LIR	Adroddiad ar yr Effaith Leol
ACLI	Awdurdod Cynllunio Lleol
LWS	Safle Bywyd Gwyllt Lleol
LVIA	Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol
m	metrau
MDS	Senario Dylunio Mwyaf
MHWS	Penllanw Cymedrig y Gorllanw
NATS	Gwasanaethau Traffig Awyr Cenedlaethol



NE	Natural England
NS	NatureScot
NHWF	Fferm Wynt North Hoyle
NO_x	Ocsidiau Nitrogen
NPS	Datganiad Polisi Cenedlaethol
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
NRMM	Peiriant Symudol Nad yw ar gyfer y Ffordd
NSIP	Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol
NT	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
NWWT	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
oACMP	Cynllun Rheoli Ansawdd Aer amlinellol
oCCP	Cynllun Cyfathrebu Adeiladu amlinellol
oCoCP	Cod Ymarfer Adeiladu amlinellol
oCMS	Datganiad Dulliau Adeiladu amlinellol
oNVMP	Cynllun Rheoli Sŵn a Dirgryniad amlinellol
oLEMP	Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg amlinellol
oPPEIRP	Cynllun Atal Llygredd ac Ymateb i Argyfwng amlinellol
oPAMP	Cynllun Rheoli Mynediad Cyhoeddus amlinellol
oSWMP	Cynllun Rheoli Gwastraff Safle amlinellol
oSMP	Cynllun Rheoli Pridd amlinellol
OnSS	Is-orsaf ar y Tir
oPPIERP	Cynllun Atal Llygredd ac Ymateb i Argyfwng amlinellol
PA2008	Deddf Cynllunio 2008
PAH	Hydrocarbonau Aromatig Polysyclig
PPW	Polisi Cynllunio Cymru
PEIR	Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol



PRoW	Hawliau Tramwy Cyhoeddus
PTS	Newid Trothwy Parhaol
R	Gofyniad
RFWF	Fferm Wynt Gwastadeddau'r Rhyl
RIAA	Adroddiad i Lywio Aseiad Priodol
RR	Sylw Perthnasol
RSPB	Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
ACA	Ardal Cadwraeth Arbennig
Sch	Atodlen
SGLP	Cynlluniau Tir Categori Arbennig
SLVIA	Aseiad o'r Effaith ar y Morlun a'r Dirwedd a'r Effaith Weledol
SoCG	Datganiad(au) Tir Cyffredin
SoS	Ysgrifennydd Gwladol
SoR	Datganiad o'r Rhesymau
SNP	Parc Cenedlaethol Eryri
SuDS	Systemau Draenio Cynaliadwy
TAN	Nodyn Cyngor Technegol
TP	Meddiant Dros Dro
TPO	Gorchymyn Cadw Coed
TSUPRoW	Cynllun Cau Hawliau Tramwy Cyhoeddus Dros Dro
TTS	Newid Trothwy Dros Dro
UKCP18	Rhagolygon Hinsawdd y Deyrnas Unedig 2018
UXO	Ordnans Heb Ffrwydro
VP	Golygfan
WBFGW	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
WTG	Generadur Tyrbin Gwynt

Llyfrgell yr Archwiliad

Mae cyfeiriadau yn y cwestiynau hyn sydd wedi'u gosod mewn cromfachau sgwâr (e.e. [APP-010]) yn cyfeirio at ddogfennau sydd wedi'u rhestru yn Llyfrgell yr Archwiliad. Mae Llyfrgell yr Archwiliad ar gael [yma](#).

Bydd Llyfrgell yr Archwiliad yn cael ei diweddarau wrth i'r archwiliad fynd rhagddo.

Mynegai

0.	Cwestiynau Cyffredinol a Thrawsbynciol	8
1.	Hedfanaeth	12
2.	Bioamrywiaeth, Ecoleg a'r Amgylchedd Naturiol.....	13
3.	Caffael Gorfodol (CA) a Meddiant Dros Dro (TP)	23
4.	Adeiladu	32
5.	Dylunio Da	34
6.	Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO)	35
7.	Perygl Llifogydd ac Ansawdd Dŵr	40
8.	Yr Amgylchedd Hanesyddol	42
9.	Defnydd Tir.....	42
10.	Tirwedd a Gweledol	44
11.	Prosesau Ffisegol Morol ac Arfordirol	45
12.	Morol – Pysgodfeydd Masnachol, Morgludiant a Mordwyo	45
13.	Morol – Naturiol.....	48
14.	Iechyd y Cyhoedd a Niwsans	48



The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

15.	Prosiectau a Chynigion Eraill	48
16.	Disgrifiad o'r Prosiect a Dethol Safle	49
17.	Morlun, Tirwedd a Gweledol	49
18.	Economaidd-Gymdeithasol	49
19.	Twristiaeth a Hamdden	51
20.	Traffig a Thrafnidiaeth	52

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

ExQ2 Cwestiwn ar gyfer: Cwestiwn		
0. Cwestiynau Cyffredinol a Thrawsbynciol		
0.1	Yr Ymgeisydd	Adroddiad ar yr Effaith ar Gydraddoldeb O ran y casgliadau y daethpwyd iddynt, eglurwch y gwahaniaeth rhwng y casgliadau 'dim effeithiau' ac 'annhebygol y bydd unrhyw effeithiau'.
0.2	Yr Ymgeisydd	Olrheiniwr NPS Diweddarwch yr Olrheiniwr NPS o ran NPS drafft EN-1, EN-3 ac EN-5.
0.3	Yr Ymgeisydd	Llyfrgell yr Archwiliad Cynghorwch ynglŷn â'ch ymagwedd at Lyfrgell yr Archwiliad a dogfennau sy'n cynnwys gwallau a/neu anghysondebau a amlygwyd yn ystod cais Awel y Môr am drwydded forol. Er enghraifft, hepgor llongau Manaw yn ddamweiniol o Dabl 3, Pysgodfeydd Masnachol [APP-054] – Ymateb yr Ymgeisydd i ML-IoM-47, Ymateb yr Ymgeisydd i Sylwadau Ymgynghori'r Cais am Drwydded Forol [REP3a-014].
0.4	Yr Ymgeisydd	Hierarchaeth Dogfennau Cynghorwch a oes hierarchaeth yn berthnasol i ddogfennau. Er enghraifft, nid yw'n ymddangos bod Atodlen Monitro'r Ymgeisydd [APP-311] yn amlinellu unrhyw fonitro ar gyfer adareg alltraeth, ond mae amod rhif 34 Egwyddorion y Drwydded Forol [REP2-022] yn awgrymu y bydd mesurau monitro adareg alltraeth. A fydd y ddogfen Egwyddorion y Drwydded Forol yn cael blaenoriaeth ac a yw'n graddio'n uwch na'r Atodlen Monitro?

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

0.5	Yr Ymgeisydd	<p>Porthladd(oedd)</p> <p>Wrth ymateb i ExQ1.18.25 [REP1-007], dywedir bod yr Ymgeisydd "<i>yn parhau i ymgysylltu â gweithredwyr porthladdoedd wrth gynnal adolygiad o borthladdoedd sydd ar gael ac i ddeall addasrwydd porthladdoedd i gefnogi canolfan weithrediadau'r Prosiect</i>" ac wrth ymateb i ExQ1.20.2 "<i>yn parhau i ymgysylltu â gweithredwyr porthladdoedd wrth gynnal adolygiad o borthladdoedd sydd ar gael ac i ddeall addasrwydd porthladdoedd i gefnogi adeiladu gwaith y Prosiect</i>".</p> <p>Amlinellwch eich safbwynt o ran yr angen am waith seilwaith porthladd posibl i hwyluso'r Datblygiad Arfaethedig, cynnal asesiad effaith a'r effeithiau arwyddocaol tebygol.</p>
-----	--------------	--

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

0.6	Yr Ymgeisydd	<p>Ffermydd Gwynt Alltraeth Mona a Morgan</p> <p>Mae Crynodeb Ysgrifenedig yr Ymgeisydd o Sylwadau Llafar yn ISH2 [REP3a-004] yn nodi bod Barn Gwmpasu wedi cael ei rhoi i Fferm Wynt Alltraeth Mona ym mis Mehefin 2022 a'i bod bellach yn brosiect 'Haen 2' yn unol â Nodyn Cyngor 17 yr Arolygiaeth Gynllunio. Mae'r nodyn hwn yn datgan "y dylai asesiad [effeithiau cronol] gael ei ddarparu ar gyfer pob [datblygiad]...Haen 2" lle y bo'n bosibl ac "y dylai asesiad o'r fath gael ei gynnal gydag ymdrech resymol a'i gofnodi'n glir yn yr ES, er enghraifft gan ddefnyddio'r fformat a ddisgrifir ym Matrics 2 (Atodiad 2)"</p> <p>Mae'r ExA yn nodi bod [REP3a-004] yn datgan y byddai angen prosiect diffiniedig gyda digon o wybodaeth i gynnal asesiad ystyrlon a'i fod yn credu nad yw'r Farn Gwmpasu'n ystyried ffin brosiect sydd wedi cael ei mireinio y tu hwnt i'r ardal alltraeth a gynigiwyd ac nad yw'n cynnwys unrhyw sicrwydd ynglŷn â'r coridor cebl allforio, y lanfa a'r ceblau a'r is-orsaf ar y tir, ac felly nid yw'r cynllun wedi'i ddiffinio'n ddigonol ar y cam hwn.</p> <p>Fodd bynnag, mae'r ExA hefyd yn nodi bod yr Adroddiad Cwmpasu sydd ar gael yn gyhoeddus yn manylu ar uchafswm nifer y tyrbinau a gynigir a'u huchder mwyaf hyd at flaen y llafn, diamedr rotorau a manylion adeiladu, a bod ymgynghoriad wedi cael ei gynnal ynglŷn â thri lleoliad posibl ar gyfer glanfa a saith lleoliad posibl ar gyfer is-orsaf (oll yng nghyffiniau Bodelwyddan). Mae'r ExA hefyd yn nodi bod Fferm Wynt Alltraeth arfaethedig Morgan wedi cyflwyno adroddiad cwmpasu i'r Ysgrifennydd Gwladol ym mis Mehefin 2022, a bod Barn ddilydol wedi'i chyhoeddi ym mis Gorffennaf.</p> <p>Rhowch gyfiawnhad ychwanegol dros eich penderfyniad i beidio â chynnal asesiad o effeithiau cronol.</p>
0.7	Yr Ymgeisydd	<p>Mares Interconnect</p> <p>Mae Mr Hussey [REP3-033] yn nodi y bwriedir i brosiect arfaethedig Mares Connect gysylltu ag is-orsaf y Grid Cenedlaethol ym Modelwyddan hefyd. Amlinellwch eich ystyriaethau ynglŷn â'r prosiect hwn ac unrhyw asesiad cronol y gallai fod angen ei gynnal.</p>

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

0.8	Yr Ymgeisydd, Cyngor Gwynedd (GC), Gwasanaethau Cynllunio Archaeolegol Gwynedd	Llwybr Arfordir Cymru At yr holl bartïon: Mae'r ExA yn ymwybodol bod Llwybr Arfordir Cymru ar fin cael ei ailgyfeirio trwy Ystad Penrhyn. A fydd y newid hwn i lwybr y llwybr troed yn arwain at unrhyw oblygiadau i effeithiau ar y dirwedd, y morlun, a Neuadd Penrhyn a'i Pharc a Gardd cofrestredig? At GC: A oes gennych chi unrhyw wybodaeth ychwanegol ynglŷn â lleoliad yr ailgyfeirio arfaethedig?
0.9	Cyngor Sir Ddinbych (DCC)	Polisi Mae eich LIR [REP1-056] yn cyfeirio at nifer o bolisiau cynllunio ac, er ei fod yn dod i'r casgliad y bydd rhai o effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig yn negyddol, nid yw'n ymddangos fel petai'n nodi unrhyw wrthdaro â'r polisiau hyn. Eglurwch eich safbwynt yn hyn o beth.
0.10	Yr Ymgeisydd	Pysgodfeydd Masnachol Crynowch eich ymagwedd at y Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd, mis Tachwedd 2022.
0.11	Yr Ymgeisydd	Piblinell Carbon Deuocsid Hynet Mae'r ExA yn nodi bod y cais ar gyfer yr NSIP arfaethedig uchod wedi cael ei dderbyn i'w archwilio ar 31 Hydref 2022. Gwnewch sylwadau ynglŷn â ph'un a oes gan y datblygiad arfaethedig hwn unrhyw oblygiadau neu a oes angen ei asesu yn rhan o'r archwiliad hwn.
0.12	Yr Ymgeisydd	Cyffredinol A wnaiff yr Ymgeisydd darparu rhestr o'r holl gyfeiriadau at Orchmynion Caniatâd Datblygu a wnaed. Darparwch hefyd ddiweddariad i'r rhestr hon erbyn Dyddiad Cau 8.

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

0.13	Yr Ymgeisydd	Cydsyniadau Eraill A ddylid dogfen cydsyniadau a thrwyddedau eraill [APP-037] cael ei diweddaru i gynnwys: caniatad cynllunio estyniad is-orsaf y Grid Cenedlaethol (National Grid Electricity Transmission Plc); cydsyniad gan Ystad y Goron am prydles coridor cebl alltraeth (ac unrhyw cydsyniad ofynnol gan ffermydd gwynt alltraeth North Hoyle a Rhyl Flats yn hyn o beth).
0.14	Yr Ymgeisydd	Atodlen Lliniaru A ddylid Atodlen Lliniaru [REP2-024] cael ei ailenwi yn 'Atodlen Lliniaru a Monitor' wedi cyfuno'r ddogfennau yma. Yn ogystal, wnewch chi sicrhau bod y ddogfen yma yn cyfeirio at ddogfennau ddiweddaru fel y bo'r angen.
0.15	Yr Ymgeisydd	Cyffredinol A oes unrhyw gwybodaeth ychwanegol wedi ei gyflwyno fel rhan o gais Drwydded Forol sydd yn berthnasol i, neu yn diweddaru unrhyw gwybodaeth sydd yn rhan o gais DCO. Os felly, a wnewch cyflwyno gwybodaeth i'r Archwiliad.
0.16	Yr Ymgeisydd	Cyffredinol A wnewch egluro ymhellach (gyda enghreifftiau perthnasol gan gynnwys arwyddocâd effeithiau) o effeithiau arwain derbynnydd lle bod rhyngweithio rhwng colled cynefinoedd ac effeithiau aflonydd yn gallu arwain at effeithiau o arwyddocâd mwy nag yr effeithiau ystyrir arwahan. [APP-060, Tabl 10]
1. Hedfanaeth		
1.1	Yr Ymgeisydd, NATS	Rhowch unrhyw ddiweddariad ychwanegol ar gynnydd y Contract Lliniaru Radar.

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

2. Bioamrywiaeth, Ecoleg a'r Amgylchedd Naturiol		
2.1	Yr Ymgeisydd	Cyffredinol Rhowch ymateb i sylwadau'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) i ExQ1.2.102 [REP1-057] y dylid ymgynghori â Thîm Adareg NIEA ynglŷn ag unrhyw Ystyriaethau Adar Môr ychwanegol sy'n gysylltiedig ag unrhyw safleoedd Ewropeaidd / Ramsar ychwanegol neu nodweddion cymwys nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad i Lywio Asesiad Priodol (RIAA) [APP-027].
2.2	CNC, DCC, CCBC, RSPB, NWWT	Cyffredinol Rhowch wybod a oes gennych unrhyw broblemau â'r mesurau lliniaru posibl yn yr Atodlen Mesurau Lliniaru [REP2-024] ac Egwyddorion y Drwydded Forol (REP2-022), ac os oes problemau'n bodoli, cyfeiriwch atynt gydag esboniad a thystiolaeth i gyfiawnhau.
2.3	Yr Ymgeisydd	Cyffredinol Yn dilyn eich ymateb i ExQ1.2.6 [REP1-007], nodwch sut y bydd enillion net amgylcheddol yn cael eu cyflawni fel y cyfeirir atynt yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol drafft ar gyfer Seilwaith Ynni Adnewyddadwy (EN-3) paragraff 2.23.3.
2.4	Yr Ymgeisydd	Cyffredinol Amlinellwch sut rydych wedi ystyried yr egwyddorion cynllunio cadarnhaol allweddol canlynol ar gyfer cadwraeth natur yn Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009): a) gweithio mewn partneriaeth ag eraill; a b) chyflawni amcanion amgylcheddol.
2.5	DCC	Cyffredinol Eglurwch eich safbwynt o ran cyflawni enillion bioamrywiaeth net gan ymateb i baragraff 15.5 eich LIR [REP1-056].

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

2.6	Yr Ymgeisydd	Cyffredinol A wnech chi crynhoi yr effaith asesu a'r dull ES a RIAA ar Safleoedd dynodedig Llywodraeth Ynys Manaw.
2.7	Yr Ymgeisydd, CNC	Cyffredinol A wnaiff yr Ymgeisydd a CNC roi diweddariad ar gynnydd Trwyddedau Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop (EPS) sy'n debygol o fod yn ofynnol ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig.
2.8	Yr Ymgeisydd	Cyffredinol Gan gyfeirio at ymateb yr Ymgeisydd i ExQ1.2.9 [REP1-007], amlinellwch sut mae'r Datblygiad Arfaethedig yn cyd-fynd â Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru: a) paragraff 162, a'r datganiad " <i>Gall gwarchod a gwella bioamrywiaeth gynnal neu gynyddu cadernid ecosystemau a gwella ansawdd yr amgylchedd ehangach</i> "; a b) pholisi ENV_01: Ecosystemau morol cadarn.
2.9	Yr Ymgeisydd	Cyffredinol Disgrifiwch, gan roi tystiolaeth berthnasol, eich ymagwedd at Gonfensiwn Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol 1992 ar gyfer Erthygl 8 Cadwraeth yn y Fan a'r Lle: a) (c) Rheoleiddio neu reoli adnoddau biolegol sy'n bwysig ar gyfer cadwraeth amrywiaeth fiolegol, boed hynny o fewn neu'r tu allan i ardaloedd a warchodir, gyda'r nod o sicrhau eu cadwraeth a'u defnydd cynaliadwy; b) (d) Hyrwyddo gwarchod ecosystemau, cynefinoedd naturiol a chynnal poblogaethau hyfyw o rywogaethau mewn amgylchoedd naturiol; a c) (e) Hyrwyddo datblygiad sy'n gadarn ac yn gynaliadwy yn amgylcheddol mewn ardaloedd gerllaw ardaloedd a warchodir gyda'r nod o warchod yr ardaloedd hyn ymhellach.
2.10	Yr Ymgeisydd	Cyffredinol Disgrifiwch, gan roi tystiolaeth briodol, eich ymagwedd at nodau a thargedau perthnasol Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal.

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

2.11	RSPB	<p>Alltraeth – Adareg Gan gyfeirio at gyfeiriadau ychwanegol eich Sylw Ysgrifenedig [REP2-058], crynhowch y mater(ion) allweddol sy'n berthnasol i ddatblygiad arfaethedig Awel y Môr.</p>
2.12	Yr Ymgeisydd, CNC	<p>Alltraeth – Adareg Mae cyfeiriadau ychwanegol Sylw Ysgrifenedig yr RSPB [REP2-058] yn cynnwys gwaith ymchwil amgylcheddol morol sy'n ystyried dadleoli trochyddion gyddfgoch (<i>Gavia stellata</i>) o ganlyniad i ffermydd gwynt alltraeth ac yn nodi "<i>gallai effaith arwyddocaol gael ei chanfod hyd at 10–15 km i ffwrdd. Dangosodd y data telemetreg ymhellach fod y pellter dadleoli'n lleihau wrth i welededd leihau. Roedd y pellter dadleoli hefyd yn fyrrach yn ystod y dydd nag yn ystod y nos, efallai wrth ymateb i oleuadau hedfanaeth a mordwyaeth y ffermydd gwynt</i>".</p> <p>Rhowch sylwadau ar y datganiad uchod mewn llythrennau italig a'i berthnasedd i ymddygiad trochyddion gyddfgoch yn Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) Lerpwl ac effeithiau ar unrhyw amcanion cadwraeth.</p>
2.13	Yr Ymgeisydd	<p>Alltraeth – Adareg Amlinellwch eich ymagwedd at sŵn a gludir yn yr aer ac unrhyw fesurau lliniaru posibl ar gyfer adareg alltraeth yn ystod adeiladu, gweithredu a datgomisiynu.</p>
2.14	Yr Ymgeisydd	<p>Alltraeth – Adareg Gan gyfeirio at Nodyn Cyngor Cynllunio Deuddeg Seilwaith Cenedlaethol: Effeithiau a'r Broses Drawsffiniol, crynhowch eich ymagwedd at asesu effeithiau trawsffiniol a datblygiad arfaethedig Arklow Bank Cam 2.</p>
2.15	Yr Ymgeisydd	<p>Alltraeth – Adareg Eglurwch y rheswm dros y datganiad mesur lliniaru Dd/B yn Nhabl 63 Adareg Alltraeth – Crynodeb o effeithiau [APP-050] os bydd mesurau lliniaru'n amrywio o uchel i isel yn Nhabl 3 Casgliadau Alltraeth – Crynodeb o effeithiau a ragfyngir ar Adareg Alltraeth [AS-028].</p>

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

2.16	Yr Ymgeisydd	<p>Alltraeth – Adareg Amlinellwch a darparwch dystiolaeth berthnasol ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) y mewnbwn cyfradd osgoi ar gyfer huganod yn ei fodelu risg gwrthdaro; a'r b) mewnbwn dwysedd adar yn ei fodelu risg gwrthdaro.
2.17	CNC, RSPB, yr Ymgeisydd	<p>Alltraeth – Adareg (Modelu Risg Gwrthdaro) Ar gyfer CNC a'r RSPB</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Nodwch a oes gennych unrhyw broblemau yn ymwneud â'r paramedrau modelu risg gwrthdaro o ran data arolwg adar; data rhywogaeth; data tyrbin; data fferm wynt; a chyfradd osgoi. Os bydd unrhyw broblemau'n parhau, rhowch dystiolaeth berthnasol i gyfiawnhau. <p>A wnaiff yr Ymgeisydd ddarparu tystiolaeth berthnasol i:</p> <ul style="list-style-type: none"> b) esbonio'r effaith bosibl ar ei asesiad o effeithiau os oedd y model risg gwrthdaro'n defnyddio cyfradd osgoi o 98% ar gyfer huganod; ac c) esbonio'r effaith bosibl ar ei asesiad o effeithiau o ganlyniad i arferion chwilota am fwyd ac ymddygiad gwahanol huganod yn ystod y tymor bridio.
2.18	Yr Ymgeisydd, CNC	<p>Alltraeth – Adareg</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Cadarnhewch a oes angen modelu risg gwrthdaro ar gyfer huganod heb facro-osgoi; ac b) ymatebwch i sylwadau'r RSPB yn ei Sylw Ysgrifenedig [REP1-090] y dylid osgoi gostwng dwyseddau sylfaenol yn y modelu risg gwrthdaro ar gyfer huganod (i gyfrif am facro-osgoi ffermydd gwynt) gan nad yw wedi cael ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyrff Cadwraeth Natur Statudol (SNCBs).
2.19	CNC	<p>Alltraeth – Adareg A ydych chi'n credu bod gan y brigiad o achosion Ffliw Adar Pathogenig Iawn unrhyw oblygiadau i asesiad yr Ymgeisydd o effeithiau ar gytrefi adar môr yn yr ES a'r RIAA [APP-027]?</p>

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

2.20	CNC, RSPB	Alltraeth – Adareg Rhowch sylwadau ar ymateb yr Ymgeisydd i Sylwadau Ysgrifenedig [REP2-002] ynglŷn â Ffliw Adar Pathogenig Iawn (tudalen 212) a Dadansoddiad Hyfywedd Poblogaeth ar gyfer huganod.
2.21	RSPB	Alltraeth – Adareg Rhowch ddiweddariad ar anghytundeb blaenorol â'r Ymgeisydd ynglŷn â'r canlynol: a) asesiad o ddim effaith niweidiol ar gyfanrwydd AGA Bae Lerpwl (y prosiect ar ei ben ei hun ac ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill) o ran trochyddion gyddfgoch sy'n nodwedd ohoni; b) asesiad ar gyfer Adar Drycin Manaw o AGA Ynysoedd Copeland, AGA Glan Môr Iwerddon, AGA Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli, ac AGA Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro; c) hepgor effeithiau gwrthdaro ar gyfer Adar Drycin Manaw yn AGA Ynysoedd Copeland, AGA Glan Môr Iwerddon, AGA Rum, AGA St Kilda, AGA Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli, ac AGA Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro; ch) asesiad ar gyfer huganod o AGA Gwales, AGA Ailsa Craig, AGA Ynysoedd Saltee; a d) defnyddio cyfraddau osgoi mewn modelu risg gwrthdaro huganod Os ydych o'r farn nad yw'ch pwyntiau wedi cael eu datrys yn ymateb yr Ymgeisydd i Sylwadau Ysgrifenedig [REP2-002], rhowch dystiolaeth berthnasol a chyfiawnhad.
2.22	Yr Ymgeisydd	Alltraeth – Adareg Disgrifiwch eich ymagwedd at ddata sylfaenol ar gyfer Adar Drycin Manaw mewn perthynas â: a) gweithgareddau nosol; b) uchderau hedfan esgyn ar oledf a chryfder y gwynt; a c) newidiadau ymddygiadol o ganlyniad i strwythurau/llongau cynhaliol wedi'u goleuo. Crynowch yr ymagwedd at asesu effeithiau ar Adar Drycin Manaw mewn perthynas â'r tair elfen hyn.

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

2.23	RSPB	Alltraeth – Adareg Yn eich Sylw Ysgrifenedig [REP1-090], rydych yn codi nifer o bryderon ynglŷn â'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i asesu effeithiau ar huganod. Disgrifiwch y dulliau y credwch y dylid eu defnyddio, gyda thystiolaeth ategol briodol.
2.24	Yr Ymgeisydd	Alltraeth – Adareg Amlinellwch unrhyw dueddiadau posibl o ran: a) y dulliau arolygu a dadansoddi; b) ymateb posibl adar i aflonyddu o ganlyniad i'r arolwg; c) dull hunangyberthynas ofodol; ch) y rheswm dros ddylunio arolwg grid (yn hytrach na thrawslun); a d) rheoli ansawdd a sicrhau ansawdd.
2.25	Yr Ymgeisydd, CNC	Alltraeth – Adareg Crynowch eich safbwynt presennol ac amlygwch unrhyw faterion sy'n parhau ynglŷn ag effeithiau posibl y Datblygiad Arfaethedig ar nodweddion adar môr bridio Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Pen y Gogarth.
2.26	Yr Ymgeisydd	Alltraeth – Adareg Crynowch y dull a ddefnyddiwyd i asesu strwythur oed sefydlog ar gyfer rhywogaethau a rhowch dystiolaeth berthnasol i gyfiawnhau'r ymagwedd.
2.27	Yr Ymgeisydd	Alltraeth – Adareg Wedi i'r dyluniad manwl aráe cael ei cwblhau, a wnewch chi cynghori ar y posibl effaith ar y asesiad ac y model risg gwrthdrawiad
2.28	Yr Ymgeisydd	Alltraeth – Mamaliaid Môr Disgrifiwch sut gwnaethoch chi asesu effeithiau posibl tonnau sy'n deillio o weithgareddau adeiladu yn yr ardaloedd aráe a choridor ceblau alltraeth.

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

2.29	Yr Ymgeisydd	Alltraeth – Mamaliaid Môr Gan gyfeirio at Dabl 6, Casgliadau Alltraeth [AS-028], eglurwch natur y gwaith datgomisiynu sy'n gysylltiedig â PTS ac effaith aflonyddu.
2.30	Yr Ymgeisydd, CNC	Alltraeth – Mamaliaid Môr a) Gan gyfeirio at eich ymateb i ExQ1.2.29 [REP1-007], sef, yn nodweddiadol, bod gofyniad i brosiectau fferm wynt alltraeth ledled y Deyrnas Unedig fesur sŵn tanddwr wrth osod y pedwar seilbost cyntaf ar gyfer yr un math o sylfaen, neu nifer gynrychioliadol o leoliadau seilbyst neu'r pedwar seilbost mwyaf, a wnaiff yr Ymgeisydd egluro sut mae canlyniadau'r dull monitro sŵn tanddwr hwn yn cyd-fynd â gosod seilbyst yng ngwely'r môr gyda gwahanol ddosbarthiad gwaddodion a thrwch, ffurfwely a mathau o graigwely. b) A wnaiff CNC ddisgrifio ei ymagwedd, gan gynnwys paramedrau ar gyfer monitro sŵn tanddwr wrth osod seilbyst, ar gyfer mamaliaid môr.
2.31	Yr Ymgeisydd	Alltraeth – Mamaliaid Môr Cadarnhewch a fyddai'r Protocol Lliniaru Mamaliaid Môr (MMMP) [APP-107] yn lliniaru ar gyfer PTS cronol oni bai bod canllawiau cysylltiedig a achredwyd gan y diwydiant a thystiolaeth yn awgrymu fel arall.
2.32	CNC	Alltraeth – Mamaliaid Môr Rhowch ddiweddariad ynglŷn â'ch safbwynt o ran nodyn egluro'r Asesiad o Effeithiau Cronol [REP2-028] ac amlinellwch unrhyw feysydd pryder.
2.33	Yr Ymgeisydd JNCC	Alltraeth – Mamaliaid Môr A wnewch chi crynhoi eich safbwynt presennol ar ymateb JNCC i cwestiynau ysgrifenedig cyntaft yr Awdurdod Archwilio [REP1-069] ynglŷn a pryderon pellteroedd rhagfynegir Morfil Pigfain (rhwng 2.6km-10km) gan bod sŵn amllder isel sydd yn cael ei cynyrchu yn ystod gosod seilbyst efo phosibilrwydd i lluosogi yn bellach trwy'r colofn dŵr.

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

2.34	Yr Ymgeisydd CNC	Alltraeth – Mamaliaid Môr Er bod CNC yn amlwg ddim yn diystyru ymagwedd o ddefnyddio cromlin D/R o rhywogaeth mwy 20ensitive ar rhywogaeth llai 20ensitive Morfil Pigfain nid ydyw yn argymhell yr ymagwedd yma gan fod yna opsiynau trothwy eraill ar gael [REP1-080 tudalen 26]. A wnewch chi crynhoi eich safbwynt presennol ar effeithiau posibl ar modelu, asesiad o'r effaith, a lliniaru I Morfil Pigfain o ganlyniad bod opsiynau trothwy eraill ar gael.
2.35	CNC	Ar y Tir – Mesurau Lliniaru Yn dilyn ymateb yr Ymgeisydd i'ch sylwadau yn ExQ1.2.5 [REP2-003], cadarnhewch a fyddai'r Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg amlinellol (oLEMP) [REP2-010] (a'r Gofyniad DCO drafft cysylltiedig) yn sicrhau gwelliannau bioamrywiaeth o ran Madfallod Dŵr Cribog (GCN).
2.36	Yr Ymgeisydd	Ar y Tir – Mesurau Lliniaru Yn dilyn eich ymateb i ExQ1.2.71 ac 1.2.72; a Thabl 5, Casgliadau ar y Tir [APP-074]: a) esboniwch sut byddech yn asesu a dilysu bod y mesurau lliniaru arfaethedig yn ddigon aeddfed a sefydledig; a b) lle y cyfeirir at " <i>weithredu mesurau lliniaru</i> ", esboniwch sut byddech yn asesu a dilysu canlyniad mesur lliniaru a weithredwyd.
2.37	CNC	Ar y Tir – Mesurau Lliniaru Eglurwch eich ymateb i ExQ1.2.5 yn [REP1-080] " <i>Er bod mesurau lliniaru wedi cael eu cyflwyno ar gyfer yr amgylchedd morol alltraeth, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gyfleoedd penodol a gyflwynwyd ar gyfer gwella bioamrywiaeth a buddiannau cadwraeth daearegol</i> ", a ph'un a ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r oLEMP [REP2-010] (paragraff 152).

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

2.38	Yr Ymgeisydd	<p>Ar y Tir – Mesurau Lliniaru</p> <p>Mae paragraff 73 yr oLEMP [REP2-010] yn datgan y bydd cynefinoedd wedi'u hadfer yn destun cyfnod ôl-ofal cychwynnol o hyd at 3 blynedd ar ôl eu hadfer, i'w ymestyn (os bydd angen) os ystyrir na fu'r adfer yn llwyddiannus, ac mae paragraff 158 yr oLEMP yn nodi y bydd y cynefinoedd lliniaru/digolledu/gwella yn cael eu monitro yn ystod blynyddoedd 1-3 (i gyd-fynd â'r cyfnod ôl-ofal a gweithredu), gyda monitro ychwanegol yn ddarostyngedig i gymeradwyo'r LEMP terfynol a strwythur rheoli cytunedig.</p> <p>Mae'r ExA yn nodi bod gan Norfolk Boreas a Norfolk Vanguard (ac eithrio OnSS ar gyfer sgrinio) gyfnod cynnal a chadw tirweddu o 10 mlynedd ar ôl plannu. Esboniwch, gyda thystiolaeth, y rheswm dros y cyfnod 3 blynedd o ôl-ofal cychwynnol/monitro.</p>
2.39	Yr Ymgeisydd	<p>Cadernid rhwydweithiau ecolegol ac ecosystemau</p> <p>Yn dilyn eich ymateb i ExQ1.2.4 [REP1-007] a'ch crynodeb ysgrifenedig o gyflwyniad llafar yng Ngwrandawriad Mater Penodol 3 [REP3a-005], a wnewch chi:</p> <ul style="list-style-type: none">a) esbonio sut gwnaethoch asesu cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad);b) disgrifio eich ymagwedd at adsefydlu ac adfer ecosystemau sydd wedi diraddio;c) esbonio sut gwnaethoch asesu'r cysylltiadau rhwng ac o fewn ecosystemau; acch) amlinellu a fyddai unrhyw gyfleoedd ar gyfer ailgysylltu unrhyw ardaloedd/llwybrau darniog er budd rhywogaethau sy'n defnyddio'r rhwydwaith.
2.40	Yr Ymgeisydd	<p>HRA</p> <p>A wnewch chi ddisgrifio'ch ymagwedd at yr HRA lefel cynllun ar gyfer Estyniadau Ynni Gwynt Alltraeth 2017 ac, yn arbennig, y protocol llwybr cebl, gan gyfeirio at 'Brotocol Llwybr Cebl Cynllun Estyniadau Ynni Gwynt Alltraeth 2017' (Ystad y Goron, 28 Awst 2019).</p>

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

2.41	CNC	HRA A wnewch chi gadarnhau p'un a ydych yn cytuno ag asesiad yr Ymgeisydd na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig (ar ei ben ei hun ac ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill) yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd unrhyw safle(oedd) Ewropeaidd; ac yng ngoleuni'r sylw ysgrifenedig gan yr RSPB [REP1-090], esboniwch pam nad ydych yn credu y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at oblygiadau i amcanion cadwraeth Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) Bae Lerpwl.
2.42	CNC	HRA Nid yw RIAA yr Ymgeisydd [APP-027] yn cynnwys effeithiau arwyddocaol tebygol ar Adar Drycin Manaw o ganlyniad i farwolaeth cysylltiedig â gwrthdaro. Esboniwch pam yr ydych yn cytuno â'r Ymgeisydd ynglŷn â'r pwynt hwn.
2.43	Ynys Manaw	HRA Cynghorwch a yw'r Nodyn Egluro ar Effeithiau Rhagfynedig a Briodolwyd i Safleoedd Dynodedig Ynys Manaw [REP3-009] yn mynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd yn eich ymateb i ExQ1.2.102 [REP2-052]. Amlinellwch unrhyw faterion sy'n weddill a rhowch dystiolaeth berthnasol.
2.44	Yr Ymgeisydd	HRA Mae paragraff 233 y RIAA [APP-027] yn amlinellu'r ymagwedd UXO:dechrau TTS ac mae paragraff 235 yn cyfeirio at yr asesiad i asesu aflonyddu ar lamhidyddion o ganlyniad i danio UXO yn yr ACAau a gynhwyswyd yn yr ymarfer sgrinio. Crynowch yr ymagwedd UXO:dechrau PTS a'r asesiad ar gyfer morfilod, a chyfeiriwch at baragraffau allweddol yn y RIAA.
2.45	Yr Ymgeisydd	HRA Disgrifiwch eich ymagwedd yn y RIAA [APP-027] at adar mudol o Ynys Manaw fel Bodion Tinwen, Môr-wenoliaid y Gogledd a Môr-wenoliaid Bychain.
2.46	Yr Ymgeisydd	HRA Gan gyfeirio at y RIAA [APP-027], crynowch yr asesiad telemetreg morfilod a chysylltedd rhwng Gwarchodfeydd Natur Morol Ynys Manaw a'r Datblygiad Arfaethedig.

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

2.47	JNCC	HRA Yng ngoleuni'r Sylw Ysgrifenedig gan yr RSPB [REP1-090], esboniwch pam nad ydych yn credu y dylai AGA Glan Môr Iwerddon gael ei chynnwys yn RIAA yr Ymgeisydd [APP-027]?
2.48	Yr Ymgeisydd	HRA Rhowch wybodaeth ychwanegol, fel enw(au) prosiect ynglŷn ag EnBW a BP 1 a 2 – Rownd 4, fel y cyfeirir atynt yn Nhabl 10 a Thabl 56 y RIAA [APP-027].
2.49	Yr Ymgeisydd	HRA Esboniwch y rheswm dros gynnwys Mona a Morgan yn Nhabl 41, ond nid yn Nhabl 36 y RIAA [APP-027]
3. Caffael Gorfodol (CA) a Meddiant Dros Dro (TP)		
3.1	Yr Ymgeisydd	Terfynau'r Gorchymyn Eglurwch y rheswm dros eithrio Llain 26 o derfynau'r Gorchymyn ac amlygwch unrhyw oblygiadau sy'n gysylltiedig â gwneud hynny.
3.2	Yr Ymgeisydd	Lleiniau Mae'n ymddangos bod llain heb ei labelu rhwng Lleiniau 458 a 459 ar ddalen olaf y Cynlluniau Tir (sydd wedi'i henwi'n Ddalen 1 o 1 ond a ddylai gael ei henwi'n Ddalen 1 o 10). Cywirwch y materion hyn ac amlygwch unrhyw oblygiadau.

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

3.3	DCC	<p>Tir Categori Arbennig – man agored Ni roddodd DCC ymateb i lawer o'r cwestiynau yn ExQ1 a gyfeiriwyd ato. Cyfeiriwyd ExQ1.3.31 at DCC, sef:</p> <p><i>Mae adran 11.2 [APP-021] yn nodi na fyddai unrhyw ganiatâd datblygu a roddir yn ddarostyngedig i weithdrefn seneddol arbennig o ystyried na fydd 'man agored' o fewn tir y Gorchymyn, pan fydd hawl y gorchymyn yn berthnasol iddo hefyd, yn llai manteisiol nag ydoedd o'r blaen i (a) yr unigolion y mae wedi'i freinio ynddynt, (b) unigolion eraill, os o gwbl, sydd â hawliau comin neu hawliau eraill, ac (c) y cyhoedd, yn unol ag a132(3) PA2008. Cadarnhewch b'un a ydych yn fodlon â'r casgliad hwn.</i></p> <p>A wnewch chi gadarnhau p'un a ydych yn fodlon â chasgliadau'r Ymgeisydd ynglŷn â'r mater hwn.</p>
3.4	Yr Ymgeisydd	<p>Gwaith Mae'r Cynllun Gwaith [REP1-032] yn amlygu nifer o 'Ardaloedd Lliniaru Dros Dro'. Os ydynt dros dro, esboniwch yn fanwl y rhesymau dros geisio hawliau parhaol dros y lleiniau perthnasol.</p>
3.5	Yr Ymgeisydd	<p>Gwaith Mae Dalen 5 o 11 y Cynllun Gwaith [REP1-032] yn dangos lledu Gwaith Rhif 11. Esboniwch y rheswm dros hyn gan nodi nad oes unrhyw gyfaddailadau croesi di-ffos wedi'u dangos yma yn Ffigurau 8 a 9 y Disgrifiad o'r Prosiect ar y Tir [APP-062].</p>

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

3.6	Yr Ymgeisydd	<p>Cynlluniau Tir ac a122 PA2008 Mae angen i'r ExA fod yn hyderus bod yr Ymgeisydd dim ond yn ceisio caffael tir sy'n ofynnol ar gyfer y datblygiad arfaethedig, sy'n ofynnol i'w hwyluso neu sy'n deillio ohono, a bod achos cymhellol er budd y cyhoedd i'r tir gael ei gaffael yn orfodol (a122 PA2008).</p> <p>O ran Llain 417, mae Ffigurau 2 a 7 y Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol amlinellol (oLEMP) [REP2-010] yn dangos nad oes unrhyw gynigion ar gyfer llawer o'r cyfadeilad adeiladu dros dro (TCC) arfaethedig a rhai ardaloedd yn gyfagos iddo. At hynny, mae paragraff 71 yr oLEMP yn datgan 'Yn TCC yr OnSS, bydd glaswelltir yn cael ei adfer i'w gyflwr blaenorol ar ôl adeiladu', sy'n awgrymu dychwelyd i ddefnydd amaethyddol. Deëllir hefyd y byddai ardaloedd eraill o Lain 417 yn cael eu defnyddio at ddibenion gwella'r dirwedd / bioamrywiaeth yn ogystal â dibenion lliniaru a digolledu. Mae'r ExA hefyd yn nodi pryderon y tiffeddiannwr ynglŷn â faint o dir sydd i'w gaffael a hyfywedd canlyniadol y fferm.</p> <p>Ar sail yr uchod, a wnewch chi: a) roi esboniad manwl dros geisio caffael cyfanswm y tir o fewn Llain 417 yn barhaol yn hytrach nag, er enghraifft, caffael TP (neu hawliau, efallai) dros rannau penodol a'u trosglwyddo'n ôl i'r tiffeddiannwr at ddefnydd amaethyddol parhaus; a b) egluro p'un a fyddai llai o welliant tirwedd / bioamrywiaeth yn ddigonol i fodloni unrhyw ofynion polisi yn hyn o beth.</p>
3.7	Davis Meade Property Consultants ar ran Mr JB a Mrs E Evans	<p>Tir ar gyfer OnSS Mae'r ExA yn nodi pryderon ynglŷn â faint o dir a gymerir yn barhaol a hyfywedd busnes fferm Faenol Broper yn y dyfodol. A allwch chi roi syniad o faint o dir y byddai'n briodol ei gymryd, yn eich barn chi, i negyddu pryder o'r fath?</p>
3.8	Rhyl Flats Wind Farm Limited (RWF)	<p>Effeithiau dilynol Rhoddodd yr Ymgeisydd ei farn ynglŷn ag effeithiau dilynol o ran RWF wrth ymateb i ExQ1.3.27 [REP1-007]. A ydych chi'n cytuno â'r pwyntiau a godwyd ac, os na, oes gennych chi unrhyw dystiolaeth berthnasol eich hun i gefnogi'ch pryder ynglŷn â'r mater hwn?</p>

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

3.9	North Hoyle Wind Farm (NHWF) Limited	Darpariaethau amddiffynnol Rydych yn nodi os na ellir cytuno ar groesfan gyda'r Ymgeisydd, efallai y bydd angen darpariaethau amddiffynnol yn y dDCO. A allwch chi ddarparu geiriad ar gyfer y rhain i'w ystyried gan yr Ymgeisydd a'r ExA?
3.10	SP Energy Networks	Darpariaethau amddiffynnol Gan nodi eich cyflwyniad D3 [REP3-029], cynhwysodd yr Ymgeisydd ddarpariaethau amddiffynnol diwygiedig yn Atodlen 9, Rhan 4 ei dDCO diwygiedig yn D3 [REP3-006]. A wnewch chi gadarnhau p'un a yw'r darpariaethau amddiffynnol yn foddhaol ac, os felly, p'un a ydych yn bwriadu tynnu'ch gwrthwynebiad yn ôl.
3.11	Yr Ymgeisydd	Y Goron Yn dilyn eich ymateb i ExQ1.3.34, a wnewch chi: a) roi diweddariad ar y Cytundeb ar gyfer Prydles gydag Ystad y Goron; a b) nodi p'un a ydych yn rhagweld unrhyw rwystrau rhag rhoi'r brydles, er enghraifft, mewn perthynas â phryderon a godwyd gan NHWF a RFWF?
3.12	Yr Ymgeisydd	Y Goron A wnewch chi: a) roi diweddariad ar drafodaethau ag awdurdodau perthnasol y Goron o ran a135 PA2008; b) cadarnhau p'un a ragwelir unrhyw rwystrau rhag eu caniatáu; ac c) amlinellu unrhyw oblygiadau i'r Datblygiad Arfaethedig os na roddir caniatâd?
3.13	Gweinidogion Cymru, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac Ei Ardderchocaf Fawrhydi'r Brenin yn Hawl ei Goron (Ystad y Goron)	Y Goron Mae angen caniatâd ar gyfer darpariaethau yn y DCO sy'n ymwneud â thir y Goron neu hawliau sydd o fudd i'r Goron yn unol ag a135(2) PA2008. Mae'r Ymgeisydd yn nodi ei fod yn cynnal trafodaethau â holl awdurdodau perthnasol y Goron ynglŷn â hyn [REP3-005]. A wnewch chi gadarnhau pryd y disgwylwch i unrhyw ganiatâd gael ei roi a ph'un a ydych yn rhagweld unrhyw rwystr rhag caniatâd o'r fath.

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

3.14	Yr Ymgeisydd	A127 ac a138 PA2008 Yn y ddogfen drafodaethau [REP3-005], a wnewch chi: a) wahaniaethu'n glir rhwng yr ymgwymerwyr statudol hynny y mae a127 PA2008 yn berthnasol iddynt a'r rhai hynny y mae a138 PA2008 yn berthnasol iddynt; b) gan ddilyn ymlaen o hyn, i ba raddau y byddai unrhyw brofion angenrheidiol a amlinellir yn a127(3)(a) neu (b), a127(6)(a) neu (b) ac a138(4) PA2008 yn cael eu bodloni; ac c) egluro p'un a yw'r cyfeiriad at gaffael tir a hawliau sy'n gysylltiedig â Network Rail, y Grid Cenedlaethol a Dŵr Cymru Cyfyngedig yn gywir.
3.15	Yr Ymgeisydd	Trafodaethau Mae'r ddogfen drafodaethau [REP3-005] yn nodi ei bod yn amlinellu statws diweddaraf trafodaethau â thirfeddianwyr a meddianwyr. Mae'r ExA yn nodi, er enghraifft, nad yw meddiannwr Llain 261, fel y'i dangosir yn y Llyfr Cyfeirio (BoR) [REP2-011] (sydd hefyd yn lesddeiliad, tenant neu feddiannwr lleiniau eraill hefyd), yn ymddangos yn [REP3-005]. Esboniwch y cyfryw anghysondeb ac ymchwiliwch i b'un a allai fod unrhyw rai eraill.

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

3.16	Yr Ymgeisydd	<p>Trafodaethau</p> <p>Wrth ymateb i ExQ1.3.12 [REP1-007], mae'r Ymgeisydd yn nodi nad yw'n bwriadu caffael unrhyw hawliau oddi wrth bartïon Categori 2 (h.y. y rhai hynny o fewn Rhan 3 y BoR ac a ddangosir hefyd yn Rhan 1 y BoR) ac, fel y cyfryw, nad oes angen manylion trafodaethau â'r partïon hyn (heblaw am rai ymgwymerwyr statudol). Cyfiawnhewch eich safbwynt ar y mater hwn ymhellach, neu diweddarwch y ddogfen drafodaethau [REP3-005] gyda phartïon Categori 2, gan nodi:</p> <ul style="list-style-type: none">a) Yr amlygir bod gan TRB Limited a Wild Ground fuddiannau yn Lleiniau 416 a 417, y cynigir eu cymryd yn llwyr trwy CA;b) Bod llawer o sefydliadau ac unigolion wedi'u rhestru yn Rhan 3 y BoR [REP2-011] (a Rhan 1 fel partïon Categori 2) fel rhai a chanddynt fuddiannau / hawliau, y mae paragraff 10 a Rhan 3 yn nodi y byddent 'yn cael eu dileu, eu hatal dros dro neu eu hymyrryd' (gan gynnwys, i amlygu nifer fach o enghreifftiau, Clwb Adar Gwyllt y Rhyl a Chonwy (Llain 257), EE Limited (Llain 17), WGIF (Jersey) Trustee I Limited (Llain 399), Cornerstone Telecommunications Infrastructure Limited (Llain 16), Awdurdod Tân Gogledd Cymru (Llain 400), Wild Ground (Llain 414) a hawliau helwriaeth unigol (h.y. Llain 428) a hawliau mynediad (h.y. Llain 185));c) Bod Erthygl 22 y dDCO yn darparu ar gyfer dileu rhai hawliau preifat neu eu hatal dros dro; ach) Dylai'r ExA fod yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi ceisio trafod gyda'r holl bartïon y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn effeithio ar eu tir neu eu hawliau, boed hynny'n barhaol neu dros dro.
3.17	Network Rail Infrastructure Limited, National Grid Electricity Transmission plc a Dŵr Cymru Cyfyngedig	<p>Trafodaethau</p> <p>Mae dogfen drafodaethau'r Ymgeisydd [REP3-005] yn nodi bod trafodaethau'n parhau â'r partïon ac y deuir i gytundeb cyn diwedd yr Archwiliad. A wnewch chi gadarnhau eich bod yn cytuno â hynny a rhowch resymau manwl os nad ydych.</p>

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

3.18	Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)	Trafodaethau Mae dogfen drafodaethau'r Ymgeisydd [REP3-005] yn datgan nad oes angen darpariaethau amddiffynnol ar gyfer CNC (fel ymgwymerwr statudol) gan fod Llain 26 wedi cael ei dileu o derfynau'r Gorchymyn. A wnewch chi gadarnhau p'un a ydych yn cytuno â hyn.
3.19	Yr Ymgeisydd	Datganiad Cyllid Mae Atodiad 2 y Datganiad Cyllid [AS-018] yn datgan "Lled yr ardal y bydd angen hawliau parhaol drosti ar gyfer y ceblau ar y tir yw 21 metr yn nodweddiadol". O ystyried hyn, esboniwch pam mae'r Cynlluniau Tir yn dangos 'Caffael Hawliau Parhaol' (tir glas) dros led cyfan llwybr y ceblau, sy'n fwy na 21 metr.
3.20	Yr Ymgeisydd	Datganiad Cyllid Wrth ymateb i ExQ1.3.38 [REP1-007], nododd yr Ymgeisydd y byddai'n diweddarau'r Datganiad Cyllid [AS-018] fel y bo'r angen. A oes unrhyw wybodaeth ychwanegol ar gael, neu a fu unrhyw newidiadau, er enghraifft i gyfraddau llog neu werthoedd tir, i olygu bod hyn yn angenrheidiol?
3.21	Yr Ymgeisydd	Atodlen CA Cyflwynodd Prifysgol Glyndŵr sylw perthnasol ar ran Glyndwr Innovations Limited [RR-035]. O ystyried bod Prifysgol Glyndŵr wedi'i chynnwys yn y BoR, a ddylai gael ei chynnwys yn yr Atodlen CA hefyd [REP2-007]?
3.22	Yr Ymgeisydd	Atodlen CA A ddylai cofnod Rhif 12 yr Atodlen CA [REP2-007] gynnwys y gair 'parhaol' yn ogystal â 'dros dro' (h.y. mewn perthynas â Llain 344)? Ychwanegwch i Exq3.22 " Ydi cyfeiriadau i Lleiniau 333, 337, 338, 340, 342, 344, 345 yn y cofnod yn gywir, o ystried bod y partïon hynny ddim yn ymddangos yn y Llyfr Cyfeirio o dan rhifau lleiniau yma?

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

3.23	Yr Ymgeisydd	Atodlen CA Mae cofnodion 7 ac 8 yr Atodlen CA [REP2-007] yn datgan "O ran lleiniau 438, 439, 442, 445, 447, mae gan yr Ymgeisydd hawliau mynediad dros y lleiniau hyn.", ac yn nodi ymhellach na fyddai'r cyfryw hawliau'n destun ymyrraeth. A wnewch chi: a) egluro p'un a yw'r cyfeiriad at 'yr Ymgeisydd' yma yn gywir; a b) p'un a yw'r diffyg ymyrraeth â'r hawliau yn cynnwys drwy gydol pob cam o'r Datblygiad Arfaethedig.
3.24	Yr Ymgeisydd	Atodlen CA Ni ddarparwyd Atodlen CA [REP2-007] wedi'i diweddarau ar gyfer D3. Darparwch fersiwn wedi'i diweddarau ar gyfer D5 a'r holl derfynau amser dilynol a chynhwyswch yr holl gofnodion perthnasol ar gyfer y golofn 'statws gwrthwynebiad', er hwylustod cyfeirio, hyd yn oed os yw hyn yn gorgyffwrdd â chofnodion yn y ddogfen drafodaethau [REP3-005].
3.25	Yr Ymgeisydd	Cwybr Fawr Mae cyflwyniad DL3a yr Ymgeisydd [REP3a-003] yn datgan nad oes angen croesfan ddi-ffos yng Nghwybr Fawr. Mae'n ymddangos bod hyn yn gwrthdaro â pharagraff 20 y Datganiad o'r Rhesymau (SoR) [REP1-047] mewn perthynas â Lleiniau 242 a 247, sy'n awgrymu bod angen hyblygrwydd ar gyfer croesfan o'r fath. A wnewch chi: a) egluro'ch safbwynt gyda rhesymau ategol manwl; a b) diweddarau unrhyw ddogfennau perthnasol fel y bo'r angen (h.y. SoR, Cynlluniau Tir ac ati).
3.26	Yr Ymgeisydd	Cwybr Fawr A wnewch chi: a) roi cyfiawnhad ar gyfer lleoliad a maint penodol Gwaith Rhif 16A, gan nodi pryderon cyflwyniad [AS-045] ynglŷn ag ef; b) cadarnhau p'un a allai unrhyw waith arolygu ychwanegol gael ei gynnal ar y cam hwn i bennu a oes cyfle i leoli llwybr y cebl mor agos i'r A525 â phosibl, fel yr awgrymwyd yn [AS-045]; ac c) egluro am ba mor hir na fyddai modd defnyddio'r tir perthnasol yng Nghwybr Fawr.

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

3.27	Yr Ymgeisydd	TP Er gwaethaf yr ymateb i ExQ1.3.14 ac Atodiad B cysylltiedig [REP1-007], mae'n ymddangos bod TP sy'n ymwneud â Chlwb Golff y Rhyl (Llain 22) yn helaeth o ystyried mai ei unig ddiben fyddai darparu mynediad i Waith Rhif 5. A wnewch chi gyfiawnhau ymhellach graddau'r TP yn ymwneud â Chlwb Golff y Rhyl.
3.28	Yr Ymgeisydd	Cyfadeiladau adeiladu A wnewch chi gadarnhau p'un a fwriedir defnyddio'r cyfadeilad adeiladu arfaethedig ger Clwb Golff y Rhyl a'r un ger Canolfan Fowls Gogledd Cymru neu a yw'r rhain yn opsiynau?
3.29	Yr Ymgeisydd	Mynediad Sut byddai mynediad i eiddo preifat yn cael ei gynnal yn ystod adeiladu a ble y darperir ar gyfer hyn yn y dDCO?
3.30	Yr Ymgeisydd	Cyffredinol Mae adran 10.1.4 o Datganiad o'r Rhesymau [REP1-047] yn awgrymu bydd angen hawliau mynediad yn ystod cam gweithredol. Fodd bynnag, mae tudalennau 17/18 o'r Llyfr Cyfeirio [REP2-011] yn awgrymu bydd angen hawliau mynediad i bob camau. Eglurwch os gwelwch yn dda a sicrhewch gysondeb yn mhob ran o Datganiad o'r Rhesymau a Llyfr Cyfeirio
3.31	Yr Ymgeisydd	Plot 26 Dangosir Plot 26 o dan gofnod 2 (SP Manweb) o'r Atodlen CA [REP2-007]. A ddylid dileu hwn gan fod Plot 26 wedi'i dynnu oddi ar dir y Gorchymyn?
3.32	Yr Ymgeisydd	Atodlen Caffael Gorfodol (CA) A ddylid cynnwys Dŵr Cymru / Welsh Water yn yr Atodlen CA [REP2-007]?
3.33	Yr Ymgeisydd	Datganiad o Rhesymau Mae'r SoR [REP1-047] yn darparu gwybodaeth gyfyngedig i gyfiawnhau CA llwyr Plot 416. A wnaiff yr Ymgeisydd rhoi cyfiawnhad manwl.

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

3.34	Yr Ymgeisydd	Atodlen Caffael Gorfodol (CA) Yn yr Atodlen CA colofn 8 a 9 [REP2-007], nodwch/gwahanwch os gwelwch yn dda y lleiniau pwnc yn destun i: CA tir (pinc); CA hawliau a Meddiant Dros Dro (TP) tir (glas): a Meddiant Dros Dro (TP) tir yn unig (melyn). Yn ychwanegol, nodwch i bob gofnod berthnasol, yr hawliau geisir (fel yr amlinellir yn rhan 10 o Datganiad o'r Rhesymau [REP1-047]).
4. Adeiladu		
4.1	DCC, CCBC a CNC	Camau'r Gwaith ar y Tir Cyflwynodd yr Ymgeisydd ddogfen 'Camau'r Gwaith ar y Tir' [REP3-017] erbyn Terfyn Amser 3. Rhowch sylwadau ynglŷn ag addasrwydd y dull fesul cam awgrymedig.
4.2	Yr Ymgeisydd	Adeiladu – Cynlluniau Rheoli Mae paragraff 62 adran 3.17 [REP2-043] yn datgan " <i>Fel rhan o'r broses barhaus ar gyfer sicrhau bod effeithiau adeiladu'r gwaith ar y tir yn cael eu lleihau i'r eithaf, bydd strategaeth fonitro'n cael ei chytuno rhwng yr Ymgeisydd a DCC yn rhan o'r CoCP Terfynol. Bydd yn ofynnol i bob contractwr gydymffurfio â'r CoCP terfynol a bydd yn ofynnol i'r Clerc Gwaith Ecolegol (ECoW) fonitro cydymffurfedd ac adrodd am achosion o dorri'r cynlluniau.</i> " A wnewch chi gadarnhau beth fyddai'r strategaeth fonitro ar gyfer Contractwyr sy'n ymgymryd â'r gwaith cyn dechrau?
4.3	Yr Ymgeisydd	Adeiladu – Cynlluniau Rheoli A allai'r Ymgeisydd gadarnhau a yw'r gofynion yn adran 2.3 Adeiladu Cyfaddeladau Adeiladu Dros Dro yn [REP2-018] yn berthnasol i'r gwaith cyn dechrau, fel clirio'r safle, ymchwiliadau archaeolegol ac ymchwiliadau tir?
4.4	Yr Ymgeisydd	Y Lanfa – Argae Coffr A wnaiff yr Ymgeisydd gadarnhau p'un a fydd argae coffr dros dro yn cael ei adeiladu wrth y lanfa a ph'un a fydd seilbyst yn cael eu defnyddio?

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

4.5	Yr Ymgeisydd	<p>Cyfadeiladau Adeiladu Dros Dro (TCC) O ran y TCC, mae paragraff 12 [REP2-018] yn datgan <i>"Byddai pob cyfadeilad yn cael ei symud ymaith ar ddiwedd y prosiect a byddai'r tir yn cael ei adfer i'w gyflwr blaenorol cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol."</i></p> <p>A wnewch chi gadarnhau p'un a fyddai lefel yr adferiad yn cael ei chytuno gyda'r tirlfeddiannwr perthnasol o flaen llaw?</p>
4.6	CNC	<p>Croesfannau Llwybr Cebi Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ar dudalen 30 [REP2-002] fod y Cynllun Rheoli Adeiladu amlinellol (oCMS) wedi cael ei ddiweddarau i <i>"eglwro y byddai unrhyw opsiynau ar gyfer croesfannau llwybr cebi di-ffos neu ffordd gludo â chwifert yn cael eu monitro'n ofalus er mwyn nodi'n gyflym p'un a oedd anffurfiadau sianel yn dechrau digwydd fel y gellid cymryd camau priodol. Mae'r oCMS hefyd wedi cael ei ddiweddarau i gynnwys mesurau lliniaru banc posibl a gwybodaeth ychwanegol am groesfannau cyrsiau"</i>.</p> <p>Gan nodi paragraffau 3.2.2 a 3.8.2 eich Sylw Perthnasol [RR-015], a ydych chi'n fodlon bod diwygiadau o'r fath yn lleddfu eich pryderon?</p>
4.7	Yr Ymgeisydd	<p>Deunydd wedi'i Gloddio Gan gyfeirio at ymateb yr Ymgeisydd i ExQ1.10.8(c) [REP1-007] <i>"Bydd yr is-orsaf arfaethedig yn defnyddio cyfuniad o gloddwaith torri a llenwi i gyflawni platfform gwastad"</i>, gofynnir i'r Ymgeisydd ymhelaethu ar ei ymateb blaenorol i ExQ1.4.9. Deunydd wedi'i Gloddio. Mae'r cyfeiriad at gydbwysedd torri a llenwi'n awgrymu y byddai deunydd wedi'i gloddio'n cael ei ddefnyddio fel deunydd llenwi cyffredinol; a wnewch chi egluro a yw hyn yn wir? Eglurwch hefyd a fyddai deunydd wedi'i gloddio y mae angen ei brosesu i fodloni manyleb priodweddau penodol yn cael ei brosesu yn yr OnSS, neu a fyddai'n cael ei ystyried yn anaddas ac yn wastraff i'w gymryd oddi ar y safle?</p>

5. Dylunio Da		
5.1	Yr Ymgeisydd	<p>Comisiwn Dylunio Cymru Mae'r crynodeb ysgrifenedig o gyflwyniadau llafar i Wrandawriad Mater Penodol 3 (ISH3) [REP3a-005] yn datgan bod yr Ymgeisydd yn nodi pwyntiau a godwyd gan Lywodraeth Cymru y gallai Comisiwn Dylunio Cymru fod yn ddefnyddiol ar gyfer y broses adolygu dyluniad. Cadarnhewch sut y bwriedir i'r Comisiwn Dylunio fwydo i mewn i'r broses Adolygu Dyluniad a chadarnhewch hyn yn y Datganiad Egwyddorion Dylunio (DPS) [REP3-013], os oes angen.</p>
5.2	Yr Ymgeisydd	<p>Dewis Is-orsaf wedi'i Hinswleiddio â Nwy neu Aer (GIS neu AIS) Mae'r crynodeb ysgrifenedig o gyflwyniadau llafar i ISH3 [REP3a-005] yn datgan bod manteision ac anfanteision yn gysylltiedig â'r ddau opsiwn uchod o safbwynt tirwedd a gweledol. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y crynodeb o fanteision ac anfanteision yn casglu, at ei gilydd, bod opsiwn GIS yn darparu mwy o fuddion tirwedd a gweledol nag opsiwn AIS, er y bydd angen mwy o amser i gyflawni sgrinio. Mae'r ExA yn nodi y gallai adeiladau GIS hefyd gymhathu'n fwy i'r dirwedd wledig leol na'r annibendod gweledol ychwanegol sy'n gysylltiedig â gosodiadau AIS. Gallai dewis AIS neu GIS ar y cam hwn ddarparu mwy o wybodaeth i bobl leol hefyd.</p> <p>Gwnewch sylwadau ar yr uchod a rhowch gyfiawnhad ychwanegol a/neu diweddarwch y DPS, os oes angen, ynghlŷn â'ch dewis o dechnoleg inswleiddio OnSS.</p>
5.3	Yr Ymgeisydd	<p>Nwy SF6 Mae'r crynodeb ysgrifenedig o gyflwyniadau llafar i ISH3 [REP3a-005] yn nodi bod Is-orsafoedd wedi'u Hinswleiddio â Nwy SF6 di-nwy yn cael eu datblygu. Rhowch unrhyw fanylion ychwanegol am raddfeydd amser hysbys ar gyfer pryd y gallai technoleg o'r fath fod ar gael ac yn fforddiadwy.</p>

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

5.4	Yr Ymgeisydd	Defnydd tir A ystyriwyd 'defnyddiau' eraill posibl o dir gerllaw'r OnSS arfaethedig ar ôl adeiladu – er enghraifft, fel estyniad i'r warchodfa natur gyfagos neu i gynnwys llwybr troed mynediad cyhoeddus neu gyfleoedd hamdden tebyg?
5.5	Yr Ymgeisydd	Dethol safle Mae'r crynodeb ysgrifenedig o gyflwyniadau llafar i ISH3 [REP3a-005] yn cynnwys crynodeb defnyddiol o'r broses dethol safle a gynhaliwyd, y manylwyd arni'n flaenorol. Byddai'n ddefnyddiol cynnwys crynodeb tebyg yn y DPS i adrodd 'hanes' y safle a helpu partion â buddiant i ddeall pam y dewiswyd y safle OnSS arfaethedig yn rhan o'r broses ddylunio. Ystyriwch a ydych yn credu bod hyn yn angenrheidiol a diweddarwch y DPS os yw'n briodol.
5.6	Yr Ymgeisydd	Adolygu'r dyluniad Yn ystod ISH3, trafodwyd y broses adolygu dyluniad a manylion fel pa mor aml y byddai'r panel yn cyfarfod a pha ddulliau a fyddai'n cael eu creu i sicrhau y byddai ei argymhellion yn cael eu gweithredu. Nodir hyn yn y Pwyntiau Gweithredu ar gyfer y gwrandawriad [EV-018i]. Darparwch y cyfryw fanylion mewn fersiwn ddiwygiedig o'r DPS neu rhowch gyfiawnhad dros beidio â gwneud hynny.
5.7	Yr Ymgeisydd, DCC	DCC a gofynion dylunio Yn ystod ISH3, dywedwyd ei bod yn debygol y byddai angen i DCC gaffael rhywfaint o gymorth allanol wrth ystyried rhyddhau gofynion perthnasol y DCO sy'n ymwneud â Dylunio, ac y gallai hyn gael ei gytuno rhwng yr Ymgeisydd a DCC, o bosibl. Rhowch wybodaeth ychwanegol am y mater hwn, gan gynnwys diweddarau'r DPS i gadarnhau, os oes angen.
6. Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO)		
Mae cwestiynau / sylwadau yn ymwneud â dDCO Diwygiad I [REP3a-016] (glân) / [REP3a-017] (wedi'i olrhain)		
Erthyglau (A)		
6.1	Yr Ymgeisydd	A2 ac A13 – diwygiwch 'Cynllun Mynediad Gwaith Stryd' i 'Cynllun Gwaith Stryd a Mynediad'

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

6.2	Yr Ymgeisydd	A2 – a ddylai 'm2' gyfeirio at 'fetrau sgwâr' yn hytrach na 'metrau wedi'u sgwario'?
6.3	DCC, yr Ymgeisydd	A2 – At yr Ymgeisydd : Gan nodi cynnwys paragraffau 3.8-3.11 [REP3a-005], ymatebwch i sylwadau DCC a wnaed erbyn Terfyn Amser 3 ynglŷn â gwaith ar y tir a chyn dechrau [REP3a-020] a diwygiwch y dDCO os oes angen. At DCC : Rhowch eich sylwadau ar baragraffau 3.8-3.11 [REP3a-005].
6.4	DCC	Mynegodd eich LIR [REP1-056] bryderon am ddarpariaethau Rhan 3 (Strydoedd) y dDCO. Ymatebodd yr Ymgeisydd i'r pryderon hyn [REP2-004]. Cadarnhewch b'un a ydych yn fodlon â'r ymateb ac, os na, rhowch resymau manwl dros hyn, gan amlygu'r meysydd / erthyglau penodol sy'n achos pryder.
6.5	Yr Ymgeisydd	A13 – Mae'n ymddangos bod y geiriad ar gyfer yr erthygl hon yn darparu pwerau eithaf eang. Rhowch gyfiawnhad ychwanegol dros y pwerau hyn, gan gyfeirio at unrhyw gynsail os yw'n briodol.
6.6	Yr Ymgeisydd	A21 – Byddai'n ddefnyddiol cyfeirio at gynseiliau a ddefnyddiwyd yn y Memorandwm Esboniadol (EM).
6.7	Yr Ymgeisydd	A27(8) – mae'n ymddangos bod yr erthygl hon yn parhau i ddarparu ar gyfer caffael hawliau'n orfodol mewn perthynas â thir y nodwyd ei fod ar gyfer ei feddiannu dros dro yn unig (h.y. tir Atodlen 6). Fel y cyfryw, mae pryderon yr ExA, fel y'u hamlinellwyd yn ExQ1.3.15, yn parhau. Yn ogystal, yn wahanol i'r DCOs y cyfeiriodd yr Ymgeisydd atynt, nid yw Atodlen 6 ac Atodlen 7 (tir hawliau) yn gorgyffwrdd yn yr achos hwn. At hynny, mae paragraff 129 y Datganiad o'r Rhesymau [REP1-047] yn datgan na fydd lleiniau Atodlen 6 yn destun caffael gorfodol. a) Gwnewch sylwadau a diwygiwch A27(8) fel y bo'r angen. b) A yw'r geiriad ar gyfer A27 ehangach wedi'i seilio ar gynsail?

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

6.8	Yr Ymgeisydd	A33 – a ddylai'r erthygl hon gael ei gwneud yn amodol ar A34?
6.9	Yr Ymgeisydd	A34 – Darparwch gyfiawnhad ychwanegol ar gyfer y pwerau a roddir gan yr erthygl hon gan gyfeirio at gynseiliau, os yw'n berthnasol. Byddai diweddariad i'r EM yn ddefnyddiol hefyd, os oes angen.
6.10	Yr Ymgeisydd	A35 – Mae'r erthygl hon yn ymddangos yn debyg i un a ddefnyddiwyd yn DCO Parc Ynni Morol Able, ond nid yw'n cynnwys yr un faint o fanylion yn is-adrannau (2) na (3). A ddylid ehangu'r erthygl i gynnwys y cyfryw fanylion a newid yr EM i gyfeirio at gynsail?
6.11	Yr Ymgeisydd	A37 – newidiwch bob cyfeiriad at 'Ei Mawrhydi' i 'Ei Fawrhydi'.
Atodlenni (Sch), gan gynnwys Gofynion (R)		
6.12	Yr Ymgeisydd	Sch 1, Gwaith Rhif 6 – ychwanegwch goma rhwng '5' a '6A'.
6.13	Yr Ymgeisydd	Sch1, Rhan 1 – Nododd yr Ymgeisydd yn ei ymateb i ExQ1.6.44 ei fod wedi diwygio'r cyfeiriad at y 'Cynllun Gwaith' i'r 'Cynllun Lleoliad' uwchben Tabl 1 (oherwydd bod y cyfesurynnau wedi'u cynnwys yn y Cynllun Lleoliad). Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod hyn wedi cael ei wneud. Cywirwch hyn, os gwelwch yn dda.
6.14	Yr Ymgeisydd	Sch 1, Rhan 1 – Cadarnhewch gwmpas y gwaith (gan gynnwys unrhyw fesurau amddiffynnol) wrth y pwll presennol/y pwll a gedwir ar ochr ddeheuol yr OnSS arfaethedig. Mae Sch 1, Rhan 1 Gwaith Rhif 35 yn cyfeirio at waith ecolegol ac amgylcheddol, ond mae hefyd yn cynnwys gwaith fel gwaith draenio, gan gynnwys cysylltiadau â systemau draenio presennol a chreu systemau draenio cynaliadwy newydd, gan gynnwys pwll/pyllau arafu, a chysylltiadau cyfleustodau.
6.15	Yr Ymgeisydd	Sch 2, R2, Tabl 2 – gwnewch yn siŵr fod termau'n gyson h.y. 'generaduron tyrbîn gwynt' yn hytrach na 'thyrbîn' neu 'dyrbînau gwynt' yn unig.
6.16	Yr Ymgeisydd	Sch 2, R2, Tabl 2 – mae hwn yn amlinellu'r pellter lleiaf rhwng generaduron tyrbîn gwynt. O ble y cymerwyd y mesuriad hwn ac a ddylai hyn gael ei nodi'n benodol?

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

6.17	Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau	Sch 2, R3 – yn D2 ymatebodd yr Ymgeisydd i'ch cais i gael eich cynnwys fel ymgynghorai yn R3 (hedfanaeth) (tudalen 63 [REP2-002]). Cadarnhewch b'un a ydych yn fodlon â'r ymateb hwn ac, os na, rhowch resymau.
6.18	Yr Ymgeisydd	Sch 2, R3(2) – atalnod llawn ar goll – ychwanegwch os gwelwch yn dda.
6.19	Yr Ymgeisydd	Sch 2, R6(h) – gwiriwch yr atalnodi – a oes coma gwallus rhwng 'o dan' a 'thir'?
6.20	Yr Ymgeisydd	Sch 2, R8 (1) - oes ':' gwallus ar ôl y gair 'priodol'?
6.21	Yr Ymgeisydd	Sch 2, R8 (2) – Mae'r ExA yn nodi ymateb yr Ymgeisydd i ExQ6.29c mewn perthynas â chynllun cynnal a chadw. Er hynny, heb fanylion o'r fath, sut gall yr ExA fod yn hyderus bod darpariaeth ddigonol wedi'i gwneud i sicrhau bod gan blanhigion newydd y cyfle gorau i sefydlu a goroesi?
6.22	Yr Ymgeisydd	Sch 2, R9(2) – Mae'r ExA yn nodi pryderon parhaus DCC ynglŷn â'r cyfnod y darperir ar ei gyfer yn y gofyniad hwn. Gan nodi bod yr asesiadau perthnasol yn ystyried effeithiau tirwedd a gweledol ar ôl 15 mlynedd a bod DCOs Norfolk Boreas a Norfolk Vanguard wedi darparu ar gyfer cyfnodau sylweddol hwy na 5 mlynedd, a fyddai'r Ymgeisydd yn fodlon cynyddu'r cyfnod a nodir yn R9(2)?
6.23	Yr Ymgeisydd	Sch 5 - diwygiwch 'Cynllun Mynediad Gwaith Stryd' i 'Cynllun Gwaith Stryd a Mynediad'.
6.24	Yr Ymgeisydd	Sch 2, R15(1) – a ddylai hyn nodi '... rhwng 0700 o'r gloch a 1900 o'r gloch...' er mwyn eglurder a chysondeb?
6.25	Yr Ymgeisydd	Sch 7 – yn dibynnu ar ystyried ExQ2.3.4 uchod, a ddylai'r atodlen hon gyfeirio'n benodol at 'Ardaloedd Lliniaru Dros Dro'?

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

6.26	Yr Ymgeisydd	Sch 9 (darpariaethau amddiffynnol) – Mae Nodyn Cyngor 15 yr Arolygiaeth Gynllunio yn datgan y dylai cyfiawnhad llawn gael ei gynnwys yn yr EM ar gyfer darpariaethau amddiffynnol. Diweddarwch yr EM i ddarparu cyfiawnhad o'r fath gan gyfeirio at ddarpariaethau cytunedig wedi'u teilwra gydag ymgymmerwyr perthnasol lle y bo'n briodol.
6.27	Yr Ymgeisydd	Sch 9 (darpariaethau amddiffynnol) – Mae Nodyn Cyngor 15 yr Arolygiaeth Gynllunio yn datgan: "Os bydd Darpariaethau Amddiffynnol ar gyfer mwy nag un parti gwarchoddedig yn cael eu cynnwys mewn un Atodlen, mae confensiynau drafftio Offeryn Statudol yn mynnu bod rhifau'r paragraffau'n dilyn yn ddilyniannol drwy gydol yr Atodlen yn hytrach na bod pob rhan yn ailddechrau ar '1' (yn yr un modd â phob Atodlen destunol mewn sawl rhan). Dylid defnyddio'r dull hwn yn y DCO drafft a gyflwynir gyda'r cais ac ym mhob drafft diwygiedig a gyflwynir yn ystod yr Archwiliad pan fydd Darpariaethau Amddiffynnol yn cael eu newid." Diwygiwch yr atodlen hon i gyd-fynd ag arfer da neu lluniwch atodlen ar wahân ar gyfer pob parti gwarchoddedig.
6.28	Yr Ymgeisydd	Sch 9, Rhan 2 (a'r dudalen gynnwys) – a ddylai '(dc)' fod yn '(DC)' er mwyn bod yn gyson â rhannau eraill o'r dDCO?
6.29	Yr Ymgeisydd	Sch 13, Tabl 1 – darparwch is-bennawd clir ar gyfer y tabl hwn. Yn ogystal, a ddylai hwn fod yn 'Dabl 5' o ystyried bod Tablau 1-4 eisoes mewn rhannau eraill o'r dDCO?
6.30	Yr Ymgeisydd	Sch 13 – gwnewch yn siŵr fod yr atodlen hon yn cael ei diweddarau'n barhaus gyda'r cyfeiriadau a'r fersiynau cywir.
6.31	Yr Ymgeisydd	Sch 13, eitem 6 – a ddylai hyn nodi'r holl atodiadau cod ymarfer adeiladu amlinellol o ystyried bod cynifer wedi cael eu diwygio?
6.32	Yr Ymgeisydd	Holl dablau'r dDCO – Cynhwyswch y llinellau ar gyfer colofnau a rhesi'r holl dablau er hwylustod darllen.

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

Memorandwm Esboniadol (EM)		
6.33	Yr Ymgeisydd	Nid yw'n ymddangos bod fersiwn yr EM â newidiadau wedi'u holrhain a gyflwynwyd erbyn D1 [REP1-053] wedi'i seilio ar fersiwn y cais [APP-019] (gyda goblygiadau posibl i fersiwn lân D1 [REP1-017]). Gwnewch sylwadau ac unrhyw gywiriadau angenrheidiol.
6.34	Yr Ymgeisydd	Awgrymodd eich ymateb i ExQ1.6.51 fod yr EM wedi cael ei ddiwygio yn unol â'r cwestiwn ynglŷn ag Erthygl 27. Nid yw'n ymddangos bod hyn wedi cael ei wneud. Cywirwch hyn, os gwelwch yn dda.
7. Perygl Llifogydd ac Ansawdd Dŵr		
7.1	Dŵr Cymru	Cyflwyniad Terfyn Amser 1 Gan ymateb i'r dogfennau a gyflwynwyd erbyn Terfyn Amser 1 ([REP1-058] i [REP1-061]), a ydych chi'n fodlon â'r ymatebion a roddwyd gan yr Ymgeisydd yn [REP2-005]? Os na, rhowch resymau.
7.2	Yr Ymgeisydd, CNC	Trwyddedau Gweithgarwch Perygl Llifogydd (FRAP) Mae'r ExA yn nodi yn y SoCG ar y tir [REP3-021] bod datgymhwyso FRAP yn parhau i fod yn fater heb ei ddatrys ac nad yw CNC yn cydsynio â'r datgymhwysiad. A wnaiff y ddau barti roi gwybod a yw trafodaethau'n parhau ynglŷn â'r mater hwn neu ai dyma safbwynt terfynol CNC?
7.3	Yr Ymgeisydd, CNC	Ansawdd Dŵr (Dŵr Croyw) Gan nodi ymateb yr Ymgeisydd yn D3a [REP3a-003] mewn perthynas â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) ac opsiynau croesi cyrsiau dŵr, a wnaiff yr Ymgeisydd a CNC roi diweddariad ynglŷn â thrafodaethau rhwng y ddau barti. Yn ogystal, a wnaiff CNC nodi p'un a yw'n fodlon ag awgrym yr Ymgeisydd bod gwybodaeth ychwanegol yn cael ei gohirio tan ar ôl caniatâd ' <i>pryd y gellir ei pharatoi ar sail dyluniad manwl ac ymchwiliadau tir ychwanegol</i> ' (rhes 5, tudalen 11 [REP3a-003]).

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

7.4	CNC	Asesiad Canlyniadau Llifogydd (FCA) Gan nodi'r sylw a wnaed yn Sylw Ysgrifenedig [REP1-080] ynglŷn â hepgor asesu gwaith wedi'i leoli o fewn C2 (fel y'i nodir yn y mapiau Cyngor Datblygu yn TAN15), darparodd yr Ymgeisydd fersiwn wedi'i diweddarau o'r FCA ar gyfer yr ECC ar y Tir erbyn Terfyn Amser 1 [REP1-042]. Cadarnhewch b'un a ydych yn fodlon â'r FCA diwygiedig. Os na, rhowch resymau.
7.5	Yr Ymgeisydd	ECC ar y Tir – Arolygon Topograffig Mae adran 3.1 [REP1-042] yn datgan nad yw arolygon topograffig manwl o ardal y gwaith seilwaith ar y tir wedi cael eu cynnal eto. Cadarnhewch ba bryd y bwriedir cynnal yr arolygon hyn a sut y bydd y canfyddiadau'n cael eu hystyried o ran yr asesiad presennol.
7.6	Yr Ymgeisydd	Strategaeth Ddraenio Amlinellol Ragarweiniol ar gyfer yr Is-orsaf – Rheoli Dŵr Budr Mae adran 4.1 [REP1-045] yn datgan na chynhaliwyd unrhyw arolygon tir ymwithiol. Cadarnhewch ba bryd y bwriedir cynnal yr arolygon hyn a sut y bydd y canfyddiadau'n cael eu hystyried o ran y Strategaeth Ddraenio arfaethedig?
7.7	Yr Ymgeisydd, CNC	Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru 2021-2027 Cadarnhewch b'un a yw Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru, sydd wedi'i ddiwygio, a data cysylltiedig [REP1-080] wedi arwain at unrhyw newidiadau i ganfyddiadau asesiad cydymffurfedd yr WFD?
7.8	DCC a CCBC	Glanfa ac Erydu Arfordirol Mae'r ExA yn ymwybodol bod rhaglen o waith amddiffyn arfordirol yn yr ardal a gynigir ar gyfer y lanfa i warchod yr ardaloedd amgylchynol rhag stormydd ac effaith y newid yn yr hinsawdd. O ystyried hyn, a yw DCC a CCBC yn fodlon â faint o fanylion a ddarparwyd o ran gwaith arfaethedig ar y lanfa neu a ystyrir bod angen rhagor o fanylion, o bosibl ar ffurf datganiad o ddulliau adeiladu glanfa?

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

8. Yr Amgylchedd Hanesyddol		
8.1	Gwasanaethau Cynllunio Archaeolegol Gwynedd	ISH2 Gwnewch unrhyw sylwadau, os dymunwch, ar gynodeb yr Ymgeisydd o'ch safbwyntiau o ISH2 [REP3a-004].
8.2	Llywodraeth Cymru	Diweddariad Cyfreithiol Darparwch ddiweddariad ar gynnydd Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, gan gynnwys y dyddiad tebygol y disgwylir Cydsyniad Brenhinol.
9. Defnydd Tir		
9.1	DMPC ar ran Mr a Mrs HE Hughes	Colli Coed Gan nodi'r sylwadau a wnaed yn y Sylw Ysgrifenedig (WR) ar ran Mr a Mrs HE Hughes [REP1-101] a'r ymateb a roddwyd gan yr Ymgeisydd yn [REP2-002], a ydych chi'n fodlon na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn effeithio ar lefel y gorchudd coed sy'n ofynnol i fod yn gymwys ar gyfer cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig Llywodraeth Cymru?
9.2	Yr Ymgeisydd a DMPC ar ran Mr a Mrs HE Hughes	Gwahanu Yn yr WR ar ran Mr a Mrs HE Hughes [REP1-101], mynegwyd pryder ynglŷn â gwahanu dros dro a'r gallu dilynol i ffermio. Nododd yr Ymgeisydd y pryderon hyn yn [REP2-002] a chadarnhaodd fod trafodaethau parhaus yn mynd rhagddynt ynglŷn â'r mater hwn. Gofynnir i'r ddau barti roi diweddariad ynglŷn â'r mater hwn.
9.3	Yr Ymgeisydd a DMPC ar ran Mr and Mrs HE Hughes a Mr JB a Mrs E Evans	Dyfnder Claddu Wrth ymateb i atebion i ExQ1.9.3 ([REP1-102] a [REP1-104]), cadarnhaodd yr Ymgeisydd yn [REP2-003] fod trafodaethau ynglŷn â dyfnder seilwaith a cheblau angenrheidiol yn parhau a'i bod yn debygol y gallai lleiafswm dyfnder claddu o 0.9m gael ei gyflawni. Gofynnir i'r ddau barti roi diweddariad ynglŷn â'r mater hwn.

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

9.4	Yr Ymgeisydd	<p>Rheoli Ffynnon Gan nodi'r cais gan yr Ymgeisydd ynglŷn â'r ffynnon ar dir Faenor Broper (rhes 4, tudalen 221 [REP2-002]), a yw DMPC wedi darparu gwybodaeth ychwanegol ar ran Mr JB a Mrs E Evans mewn perthynas â seilwaith y ffynnon?</p>
9.5	Llywodraeth Cymru	<p>Adnoddau Pridd Gan nodi eich sylwadau a wnaed mewn perthynas ag ExQ1.9.1 ac ExQ1.9.8 [REP1-097], ymatebodd yr Ymgeisydd yn [REP2-003] gan ddweud "<i>mae Arolygon Dosbarthiad Tir Amaethyddol Ôl 1988 (Cymru) yn dangos bod arolygon helaeth wedi cael eu cynnal i'r de a'r dwyrain o'r Rhyl, i'r gogledd-orllewin o Fodelwyddan ac o amgylch Parc Busnes Llanelwy. Mae'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC) a bennwyd gan yr arolygon hyn wedi'i adlewyrchu yn y data ALC Rhagfynegol ac mae'r Ymgeisydd o'r farn bod hyn yn cynrychioli digon o wybodaeth i lywio'r AEA gyda hyd at 5Ha o dir y rhagwelir ei fod yn dir Gorau a Mwyaf Amibwrpas (BMV) yn cael ei gollu'n barhaol yn gysylltiedig â'r OnSS.</i>"</p> <p>Cadarnhewch b'un a yw'r ymagwedd hon yn lleddfu'ch pryderon.</p>
9.6	Yr Ymgeisydd	<p>Dosbarthiad Tir Amaethyddol Wrth ymateb i ExQ1.9.7, mae'r ExA yn nodi'r wybodaeth a ddarparwyd yn Atodiadau R ac S [REP1-007]. Diweddarwch y tabl yn Atodiad R i gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) enw'r daliad; b) disgrifiad byr o'r daliad e.e. y math o ffermio, a yw'n destun unrhyw gynllun rheoli ac ati; a c) pha ran o'r Datblygiad Arfaethedig y mae angen y tir ar ei chyfer e.e. TCC, ECC ac ati.
9.7	Llywodraeth Cymru	<p>Cynllun Rheoli Pridd amlinellol (oSMP) Wrth ymateb i ExQ1.9.9, 9.10, 9.11, 9.13, 9.14, 9.15 a 9.17 [REP1-097], mynegodd Llywodraeth Cymru bryderon ynglŷn â chynnwys yr oSMP. Mae'r Ymgeisydd wedi gwneud diwygiadau i'r oSMP ac fe'u cyflwynwyd i'r Archwiliad erbyn Terfyn Amser 2 [REP2-033]. A yw'r diwygiadau'n lleddfu'ch pryderon?</p>

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

9.8	Yr Ymgeisydd	<p>oSMP Mae paragraffau 7, 12, 13 a 14 yr oSMP [REP2-033] yn cyfeirio at swyddog cyswllt amaethyddol tra bod paragraff 40 yr un ddogfen yn cyfeirio at swyddog tir amaethyddol. Eglurwch y gwahaniaeth rhwng y rolau, os oes gwahaniaeth.</p>
9.9	Yr Ymgeisydd	<p>Partneriaeth Cwybr Fawr I gloi nifer o ExQ1 [AS-045], nododd Rostons ar ran Mrs H Proffitt, Mrs J Johnson, Mrs S Archdale a Mrs R Hughes <i>"Er yr eglurwyd yn ystod cyfarfodydd safle niferus nad ydym eisiau i'r cebl a'r seilwaith cysylltiedig gael eu gosod dros ein tir, os oes rhaid i hynny ddigwydd gellir lliniaru'r effaith yn fawr trwy:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> a) <i>Leoli'r llwybr mor agos i ffin yr eiddo â'r A525 â phosibl;</i> b) <i>Drilio cyfeiriadol ar hyd-ddo i gyd; a</i> c) <i>Dileu'r cyfadeiladau adeiladu neu leihau eu maint yn sylweddol."</i> <p>Ymatebwch i bob un o'r awgrymiadau hyn.</p>
10. Tirwedd a Gweledol		
10.1	Yr Ymgeisydd	<p>Gwrychoedd Mae'r dDCO (Sch 10, Rhan 1) yn darparu ar gyfer symud gwrychoedd 118a i 118b a 121a i 121b ymaith. A wnewch chi:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) egluro'r rhesymau dros hyn, gan nodi os yw at ddibenion llain welededd, y byddai'r fynedfa weithredol berthnasol yn cael ei defnyddio unwaith neu ddwy y flwyddyn yn unig (tudalen 53 [REP1-001]; b) amlygu ble mae pwynt 121a ar gynllun [REP3a-010] neu ei ychwanegu os oes angen; a c) ble y byddai'r gwrychoedd hyn yn cael eu hamnewid, gan nodi bod hyn wedi'i ddangos ar Ffigur 2 yr oLEMP ond nid yw'n ymddangos y darperir ar ei gyfer yn y rhifau gwaith perthnasol yn y dDCO.

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

10.2	Yr Ymgeisydd DCC	Sgrinio Mae'r ExA yn nodi mai diben plannu coetir yn ardal dde-orllewinol y safle OnSS yw helpu i sgrinio'r is-orsaf arfaethedig ar gyfer meddianwyr eiddo ar hyd Glascoed Road. Gan nodi sylwadau a wnaed gan Bartion â Buddiant yn ystod ISH3: a) a roddwyd unrhyw ystyriaeth i sut gallai hyn effeithio ar unrhyw olygfeydd agored presennol dros y dirwedd o'r eiddo hyn; a b) a fyddai cyfle i feddianwyr eiddo preswyl yng nghyffiniau safle'r OnSS (h.y. y rhai hynny ar hyd Glascoed Road ac yn Faenol Broper) wneud sylwadau ar gynigion tirwedd ar gyfer y safle OnSS ehangach?
11. Prosesau Ffisegol Morol ac Arfordirol		
11.1	Yr Ymgeisydd	Cynllun Amddiffyn Arfordirol Canol Prestatyn Wrth ymateb i Sylw Perthnasol Cyngor Sir Ddinbych [RR-001], dywedwyd " <i>Mae'r Ymgeisydd yn cysylltu â Chynllun Amddiffyn Arfordirol Canol Prestatyn, mae'n hyderus y gall y ddau gynllun gydfodoli a bydd yn rhoi gwybodaeth i'r ExA wrth i drafodaethau fynd rhagddynt.</i> " Rhowch ddiweddariad ynglŷn â'r cyfryw drafodaethau.
12. Morol – Pysgodfeydd Masnachol, Morgludiant a Mordwyo		
12.1	Yr Ymgeisydd	Pysgodfeydd Masnachol Eglurwch sut y dyluniwyd mesurau lliniaru i wella unrhyw fuddion cadarnhaol posibl i'r diwydiant pysgota a stociau pysgod masnachol yn y tymor canolig a'r tymor hir.
12.2	Yr Ymgeisydd	Pysgodfeydd Masnachol (Parthau Diogelwch) Yn eich ymateb i ExQ1.12.14 [REP1-007], rydych yn datgan eich bod yn " <i>bwriadu gwneud cais i'r SoS am barthau diogelwch pan benderfynir ar nifer derfynol ac union leoliad y seilwaith alltraeth</i> " ac ExQ1.4.23 [REP1-007] " <i>gallai'r Parthau Diogelwch ymestyn y tu hwnt i Derfynau'r Gorchymyn</i> ". Crynowch eich ymagwedd at asesu effeithiau posibl parthau diogelwch ar bysgota masnachol.

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

12.3	Ynys Manaw	Pysgodfeydd Masnachol Ymatebwch i atebion yr Ymgeisydd i'r ymatebion a roddwyd gan IoM [REP3-002] i ExQ1.12.5b, 1.12.5c ac 1.12.6.
12.4	Yr Ymgeisydd	Pysgodfeydd Masnachol Gan gyfeirio at Gyflwyniad Carl Davies erbyn Terfyn Amser 1 [REP1-098] a oedd yn ymateb i ExQ1.18.8 a'ch ymateb i hyn [REP2-003], crynhowch yr effaith bosibl ar: a) ddalfeydd pysgod a physgod cregyn masnachol – hyd a lled yr ardal y tu hwnt i ôl troed y fferm wynt pan fydd seilbyst yn cael eu gosod; b) dalfeydd rhywogaethau pysgod asgellog a physgod cregyn – yr effeithir arnynt gan osod seilbyst ac effeithiau dadleoli; ac c) adferiad graddol ar gyfer rhai rhywogaethau, ond efallai nid rhai eraill.
12.5	Yr Ymgeisydd, CNC	Pysgodfeydd Masnachol Rhowch ddiweddariad ar ddatrysiadau sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â pheirianeg ecolegol ar gyfer ceblau a gosod deunyddiau i atal erydu, o ystyried bioamrywiaeth.
12.6	Yr Ymgeisydd	Pysgodfeydd Masnachol Mae Tabl 7, Casgliadau Alltraeth [AS-028] yn cyfeirio at: a) Ddadleoli o ganlyniad i arâe AyM, a Dadleoli o ganlyniad i ECC alltraeth AyM; " <i>gan arwain at offer yn gwrthdaro a mwy o bwysau pysgota ar feysydd cyfagos</i> ". Cadarnhewch y gweithgarwch sy'n achosi'r dadleoliad hwn. b) Cadarnhewch y gweithgarwch sy'n gysylltiedig â " <i>Hwyllo ychwanegol i feysydd pysgota amgen ar gyfer llongau a fyddai'n pysgota yn ardal AyM fel arall</i> ". c) Diffiniwch y cyfeiriad at feysydd pysgota yn y datganiad " <i>Mwy o draffig llongau o fewn meysydd pysgota o ganlyniad i newidiadau i lwybrau morgludiant a thraffig llongau cynnal a chadw o AyM gan darfu ar weithgarwch pysgota</i> ".

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

12.7	Yr Ymgeisydd	Morgludiant a Mordwyo (Parthau Diogelwch) Yn eich ymateb i ExQ1.4.23 [REP1-007] " <i>gallai'r Parthau Diogelwch ymestyn y tu hwnt i Derfynau'r Gorchymyn</i> ", crynowch eich ymagwedd at asesu effeithiau posibl parthau diogelwch ar forgludiant a mordwyo, gan gynnwys effeithiau posibl ar lonydd môr cydnabyddedig.
12.8	Yr Ymgeisydd	Morgludiant a Mordwyo Crynowch eich ymagwedd at asesiad risg morol o ran risgiau cronol ac ar y cyd sy'n gysylltiedig â'r Datblygiad Arfaethedig a datblygiadau eraill arfaethedig yn yr un ardal o'r môr.
12.9	Yr Ymgeisydd	Morgludiant a Mordwyo Esboniwch y mesurau sydd i'w mabwysiadu (gan gynnwys sut y byddent yn cael eu sicrhau) i sicrhau na fyddai seilwaith diogelu ceblau'n lleihau'r dyfnder amgylchynol (gan ddim mwy na 5%) y cyfeirir ato mewn Datwm Siart.
12.10	Yr Ymgeisydd	Morgludiant a Mordwyo Amlinellwch y broses a'r partion sy'n gysylltiedig (gan gynnwys sut y'u sicrheir) i gytuno ar osodiad arâe dyluniad manwl, a ph'un a allai gwaith adeiladu ddechrau yn ardal yr arâe cyn i osodiad arâe dyluniad manwl gael ei gytuno gyda rhanddeiliaid perthnasol.
12.11	Yr Ymgeisydd	Morgludiant a Mordwyo Eglurwch a fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn lleihau effeithiau negyddol mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol (ALARP) a chrynowch eich ymagwedd at sicrhau mesurau lliniaru.
12.12	Yr Ymgeisydd	Morgludiant a Mordwyo Crynowch eich strategaeth ar gyfer monitro morgludiant a mordwyo yn ystod cam adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig.

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

13. Morol – Naturiol		
13.1	Yr Ymgeisydd	Mesurau Lliniaru Mae cyflwyniad ysgrifenedig CNC ar gyfer Terfyn Amser 3 [REP3-026] yn nodi eu bod yn cytuno â'ch ymagwedd arfaethedig at fonitro erydu eilaidd ar ôl adeiladu, gydag amod ynglŷn â chynllun monitro yn rhan o unrhyw Drwydded Forol a roddir. Diweddarwch yr Atodlen Mesurau Lliniaru [REP2-024] i adlewyrchu hyn.
13.2	Yr Ymgeisydd	Cynllun Bioggiogelwch Morol Nodir yr ymrwymiad i Gynllun Bioggiogelwch morol annibynnol ac ar wahân yn [REP2-002]. Mae CNC yn cynghori y dylai cynllun o'r fath gael ei sicrhau gan y Drwydded Forol a'r DCO o ystyried gorgyffyrddiad awdurdodaethol. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod y dDCO yn cynnwys y cyfryw sicrwydd eto. Diweddarwch y dDCO fel y bo'r angen.
14. Iechyd y Cyhoedd a Niwsans		
14.1	Yr Ymgeisydd	Effaith Sŵn a Dirgryniad ar Fusnesau Mynegodd Prifysgol Glyndŵr, ar ran Arloesiadau Glyndŵr, bryderon ynglŷn ag effaith bosibl sŵn a dirgryniad o'r prosiect ar weithredu eu busnes sydd wedi'i leoli ym Mharc Busnes Llanelwy [RR-035]. Rhowch ddiweddariad ar unrhyw drafodaethau â Phrifysgol Glyndŵr neu Arloesiadau Glyndŵr ynglŷn â'r mater hwn.
14.2	Prifysgol Glyndŵr (ar ran Glyndwr Innovations Limited)	Effaith Sŵn a Dirgryniad ar Fusnesau Rhowch ymateb i gwestiwn ExQ1.14.11 [PD-006] a diweddariad ar unrhyw drafodaethau â'r Ymgeisydd.
15. Prosiectau a Chynigion Eraill		
Mae cwestiynau ynglŷn â'r maes pwnc hwn i'w gweld yn Adran 0, Cwestiynau Cyffredinol a Thrawsbynciol.		

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

16. Disgrifiad o'r Prosiect a Dethol Safle		
Nid oedd unrhyw gwestiynau yn ymwneud â'r maes pwnc hwn yn y rownd hon o gwestiynau.		
17. Morlun, Tirwedd a Gweledol		
17.1	Yr Ymgeisydd	Gwelliannau tirwedd Rhowch ddiweddariad ar drafodaethau ynglŷn â gwelliannau tirwedd posibl i ardaloedd dynodedig.
18. Economaidd-Gymdeithasol		
18.1	Llywodraeth Cymru, DCC a CCBC	Cynnwys Lleol Wrth ymateb i ExQ1.18.26 [REP1-007], dywedodd yr Ymgeisydd y byddai ganddynt " <i>bryder sylweddol ynglŷn â sicrhau cyfran o gynnwys lleol trwy'r DCO</i> ". Gan nodi'r ymateb hwn a'r gofyniad i'r Ymgeisydd gyflwyno Cynllun Cadwyn Gyflenwi er mwyn bod yn gymwys i wneud cais am Gontract ar gyfer Gwahaniaeth, ydych chi'n parhau i greu bod angen sicrhau canran o gynnwys lleol ar gyfer swyddi o fewn rhanbarth gogledd Cymru yn ystod y cam adeiladu a/neu weithredol? Os felly, rhowch ffigur targed realistig a sut y gellid ei sicrhau.
18.2	Yr Ymgeisydd	Cynllun Cadwyn Gyflenwi Wrth ymateb i baragraff 13.4-13.7 Adroddiad ar yr Effaith Leol Cyngor Sir Ddinbych [REP1-056] ac Ymateb Llywodraeth Cymru i ExQ1.18.4 [REP1-097], cadarnhawyd y buoch yn gweithredu'n rhagweithiol i gynnwys a chynyddu'r defnydd o gyflenwyr lleol i'r eithaf lle bynnag y bo'n bosibl, a'ch bod yn llwyr ymwybodol o fuddion cynnwys lleol ac yn cefnogi hynny a bod modd cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio mwy o adnoddau lleol i'r eithaf. Rhowch drosolwg o'r gweithgareddau a gynhaliwyd hyd yma.
18.3	Yr Ymgeisydd, DCC, CCBC, IoACC	Gofyniad 20 – Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth A oes angen cynnwys Gofyniad 20 yn yr Atodlen Mesurau Lliniaru [REP2-024]?

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

18.4	Yr Ymgeisydd a Mr Carl Davies	<p>Gosod Deunyddiau i Atal Erydu a Deorfeydd Cimychiaid Mae'r ExA yn nodi ateb yr Ymgeisydd i ymateb Mr Carl Davies i ExQ1.18.8 erbyn Terfyn Amser 2 [REP2-003].</p> <p>Gofynnir i'r ddau barti roi diweddariad ar unrhyw drafodaethau ychwanegol ynglŷn â mesurau lliniaru i atal erydu a deorfeydd cimychiaid posibl.</p>
18.5	Llywodraeth Cymru	<p>Datganiad Ieithyddol Cymunedol Gan nodi ateb yr Ymgeisydd i'r ymateb a roddodd Lywodraeth Cymru i ExQ1.18.12 [REP2-003], a ydych yn fodlon bod y Datganiad Ieithyddol Cymunedol wedi defnyddio dull priodol a chymesur? Os na, rhowch fanylion ychwanegol.</p>
18.6	Yr Ymgeisydd	<p>Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth Ddrafft Wrth ateb yr ymateb a roddodd Lywodraeth Cymru i ExQ1.18.12 [REP2-003], dywedir y byddwch yn ystyried y Gymraeg wrth ymgynghori ynglŷn â'r Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth ddrafft. Ymhelaethwch ar sut y bydd yr ystyriaeth hon yn cael ei rhoi ar waith yn ymarferol.</p>
18.7	CCBC	<p>Cynllun Adfywio 10 Mlynedd ar gyfer Llandudno Wrth ymateb i ExQ1.18.4 [REP1-054], cyfeiriwyd at gynllun adfywio 10 mlynedd ar gyfer Llandudno. Darparwch gopi o'r cynllun hwn neu ddolen ato.</p>
18.8	Yr Ymgeisydd	<p>Disodli Ymwelwyr Wrth ymateb i ExQ1.18.27 [REP1-054], dywedodd CCBC "<i>Er y nodwyd ym Mhennod 4, Cyfrol 3 yr ES bod cyfle i'r ymwelwyr hyn gael eu disodli gan ymwelwyr iau, nid oes tystiolaeth i gefnogi hyn.</i>" Cadarnhewch b'un a oes tystiolaeth o'r fath yn bodoli.</p>

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

18.9	Yr Ymgeisydd	<p>Partneriaeth Cwybr Fawr Wrth ymateb i ExQ1.18.6 [AS-045], dywedodd Rostons ar ran Mrs H Proffitt, Mrs J Johnson, Mrs S Archdale a Mrs R Hughes, o ran y stablau hurio "<i>Mae llwybr y cebl a'r ardal weithio wedi'u lleoli'n syth trwy 6 o'r prif badogau ceffylau, ni fydd modd defnyddio'r rhain yn ystod y gwaith ac ni ellir stablu'r ceffylau'n barhaol, mae'r holl dir arall yn cael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth. Fel y cyfryw, bydd y ceffylau'n cael eu symud oddi ar y safle i stablau hurio amgen a phan fyddant wedi ymgartrefu mewn stablau newydd, mae'n annhebygol y byddant yn dychwelyd.</i>"</p> <p>Cadarnhewch ba mor hir na fydd modd defnyddio'r 6 phadog o ganlyniad i waith adeiladu.</p>
18.10	Yr Ymgeisydd	<p>Partneriaeth Cwybr Fawr Wrth ymateb i ExQ1.18.6 [AS-045], dywedodd Rostons ar ran Mrs H Proffitt, Mrs J Johnson, Mrs S Archdale a Mrs R Hughes, o ran y lleiniau carafannau teithio "<i>Mae'r lleiniau llawr caled ar gyfer carafannau teithio tua 60m o'r cyfadeilad adeiladu, a bydd y llwch a'r sŵn o'r safle'n effeithio arnynt yn ddifrifol, tra bod y lleiniau glaswellt wedi'u lleoli gerllaw'r cyfadeilad ac ni fyddant yn ymarferol pan fydd y cyfadeilad yn cael ei ddefnyddio.</i>"</p> <p>Yng ngoleuni'r uchod, a roddwyd ystyriaeth i fesurau lliniaru ychwanegol yn y lleoliad hwn?</p>
18.11	Llywodraeth Cymru, DCC a CCBC	<p>Adroddiad ar yr Effaith ar Gydraddoldeb Cadarnhewch b'un a ydych yn fodlon â'r dull asesu a ddefnyddiwyd a'r casgliadau a fanylir yn yr Adroddiad ar yr Effaith ar Gydraddoldeb [REP3-010]. Os na, esboniwch eich rhesymau.</p>
19. Twristiaeth a Hamdden		
19.1	DCC	<p>Cynllun Rheoli Mynediad Cyhoeddus Amlinellol (oPAMP) Nodir y sylwadau yn Adroddiad ar yr Effaith Leol (LIR) DCC mewn perthynas â'r oPAMP drafft. Cyflwynodd yr Ymgeisydd fersiynau diwygiedig o'r oPAMP erbyn D1 [REP1-036] a D2 [REP2-041]. A yw'r fersiynau diwygiedig o'r oPAMP yn ymdrin â'ch ceisiadau/pryderon yn foddhaol? Os na, esboniwch eich rhesymau.</p>

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

19.2	Yr Ymgeisydd	<p>Diogelwch Plymwyr Hamdden Gan nodi'r ddogfen Egwyddorion y Drwydded Forol [REP2-022] a'r mesurau lliniaru sydd wedi'u hymgorffori yn nyluniad y prosiect (Tabl 23 Pennod yr ES ar Dwristiaeth a Hamdden [APP-065]), cadarnhewch a fydd plymwyr hamdden yn cael gwybod am ddechrau gwaith adeiladu a, phan fydd angen, gwaith cynnal a chadw yn ystod gweithredu.</p>
19.3	Yr Ymgeisydd	<p>Parc Cenedlaethol Eryri, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Ynys Môn ac AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Pa ystyriaethau penodol a roddwyd i'r effaith ar ddangosyddion ansawdd arbennig y Parc Cenedlaethol a'r ddwy AHNE o ran gweithgareddau twristiaeth a hamdden yn ystod camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Datblygiad Arfaethedig?</p>
20. Traffig a Thrafnidiaeth		
20.1	Yr Ymgeisydd	<p>Llwybrau Mynediad i Safle Arfaethedig yr Is-orsaf Nodir o'ch ymateb i EXQ1.20.16 [REP1-007] bod pedwar llwybr mynediad posibl i safle arfaethedig yr is-orsaf wedi cael eu hystyried yn ystod camau cynnar y prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Un yn union i'r gogledd o'r amlogfa oddi ar y B5381 Glascoed Road; b) Un i'r dwyrain trwy Barc Busnes Llanelwy; c) Un i'r gogledd-ddwyrain, trwy is-ffordd oddi ar Ffordd William Morgan i'r gogledd o Barc Busnes Llanelwy; ac ch) Un i'r de-orllewin oddi ar Glascoed Road. <p>Diystyriwyd y ddau gyntaf o'r rhain, sef y llwybr mynediad yn union i'r gogledd o'r amlogfa ac o'r dwyrain trwy Barc Busnes Llanelwy, gan werthusiad mewnol cyn i'r ddau a oedd ar ôl o'r gogledd-ddwyrain a'r de-orllewin fod yn destun ymgynghoriad yn yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (PEIR). Esboniwch y rhesymau dros ddiystyru'r llwybrau mynediad hyn.</p>

ExQ2: 23 Ionawr 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Llun 6 Chwefror 2023**

20.2	Yr Ymgeisydd	<p>Llwybrau Mynediad i Safle Arfaethedig yr Is-orsaf</p> <p>Nododd eich ymateb i ExQ1.20.16 [REP1-007] fod y dewis rhwng y ddau lwybr mynediad a oedd ar ôl, o'r gogledd-ddwyrain a'r de-orllewin, yn gyfartal iawn. Aeth ymlaen i nodi bod dadansoddiad o gyfyngiadau Du, Coch, Oren a Gwyrdd (BRAG), lle'r oedd Du yn golygu cyfyngiad pendant a Gwyrdd yn golygu dim cyfyngiad o bwys, wedi cael ei gynnal yn dilyn ymgynghoriad, a arweiniodd at ddewis y llwybr mynediad o'r de-orllewin oddi ar Glascoed Road.</p> <p>O ran y dadansoddiad BRAG hwn, rydych yn cyfeirio at Ffigur 26 Cyfrol 1, Pennod 4, Dethol Safle a Dewisiadau Amgen yn yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol. Darparwch gopi o'r Ffigur hwn ac amlinellwch y broses ddadansoddi a'i chasgliadau.</p>
20.3	Yr Ymgeisydd	<p>Llwythi Peryglus</p> <p>Nodir o baragraff 196 Cyfrol 3, Pennod 9: Traffig a Thrafnidiaeth yr ES [APP-070] na fwriedir paratoi Adroddiad Asesu Llwyth Anghyffredin (ALAR) tan ar ôl i unrhyw ganiatâd gael ei roi. Felly, tybiwyd bod y llwybr o Gyffordd 26 yr A55 i safle arfaethedig yr is-orsaf trwy'r B5381 Glascoed Road yn dderbyniol yn seiliedig ar yr ALAR a baratowyd ar gyfer is-orsaf fferm wynt alltraeth GyM. Darparwch gopi o'r adroddiad y seiliwyd y dybiaeth hon arno.</p>